Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Brifysgol De Cymru

Ebrill - Mai 2015

Cynnwys

Yr adolygiad yma **1**

Canfyddiadau allweddol **2**

Beirniadaethau ASA am Brifysgol De Cymru 2

Nodweddion o arfer da 2

Argymhellion 2

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith 3

Ynghylch Prifysgol De Cymru **4**

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol De Cymru **6**

1 Y Feirniadaeth am: Osod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau 7

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr 19

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu 50

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr 55

5 Sylwadau am Ryngwladoli 58

Rhestr termau **61**

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol De Cymru. Cafwyd yr adolygiad rhwng 27 Ebrill a 1 Mai 2015 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bum adolygwr, fel a ganlyn:

- Dr David Houlston
- Dr Ann Read
- Yr Athro Ian Robinson
- Dr David Wright
- Mr Mark Napier (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol De Cymru a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)[1] sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
  - osod a chynnal safonau academaidd trothwy
  - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
  - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
  - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn rhoi sylwadau ar y thema a ddewiswyd
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd esboniadau o'r canfyddiadau mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 7.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth am ASA a'i chenhadaeth.[2] Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud Adolygiad Addysg Uwch: Cymru[3] ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y rhestr termau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

[1] Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code.
[2] Gwefan ASA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.
[3] Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol De Cymru

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol De Cymru.

- Mae'r gwaith o osod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol De Cymru.

- Yr arweiniad hygyrch o safon uchel a gyda ffocws a ddarperir i gyflogwyr ac ymgeiswyr ynglŷn â chydnabod dysgu blaenorol (Disgwyliad B6).
- Rôl Swyddogion Cyswllt y Brifysgol mewn cefnogi gweithrediadau'r partneriaethau cydweithredol cyfredol (Disgwyliad B10).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol De Cymru.

Erbyn mis Hydref 2015:

- sicrhau bod mecanweithiau cynrychioli priodol ac effeithiol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (Disgwyliad B5)
- gwneud defnydd mwy systematig ac effeithiol, ar lefel ysgol ac yn uwch, o brosesau academaidd a gweithdrefnau monitro'r Brifysgol er mwyn sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn cael eu gweithredu'n gyson (Disgwyliad B6)
- sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr yn rheolaidd ac yn eglur (Disgwyliad B7)
- adolygu ei Pholisi Diwydrwydd Dyladwy a'i gweithdrefnau i sicrhau ei bod yn craffu'r sefydliadau'n wirioneddol neu o bosib yn gysylltiedig â darpariaeth sy'n arwain at ei dyfarniadau (Disgwyliad B10)
- sicrhau bod holl gofnodion yr hyfforddiant i oruchwylwyr ymchwil ôl-raddedig yn gyflawn ac yn addas i'w pwrpas (Disgwyliad B11)
- sicrhau bod yr holl wybodaeth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr yn gywir ac yn gyson, ac yn cyflawni gofynion sylfaenol y Brifysgol (Disgwyliad C)
- sicrhau bod gwybodaeth a gyhoeddir gan bartneriaid a sefydliadau trydydd parti, am ddarpariaeth sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol, yn gyson addas a dibynadwy (Disgwyliad C).

Erbyn mis Ionawr 2016:

- sicrhau bod yr holl gyrsiau gradd meistr drwy ymchwil a doethuriaethau proffesiynol wedi eu rheoleiddio'n briodol o fewn fframweithiau ar gyfer dyfarniadau sydd wedi'u diffinio'n glir (Disgwyliad A2.1)
- sicrhau bod cofnod diffiniedig o bob cwrs a chymhwyster, yn cynnwys elfennau a addysgir neu elfennau strwythuredig o ddyfarniadau ymchwil, yn gyfredol, wedi eu cymeradwyo ac wedi'u cynnal (Disgwyliad A2.2).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau**'r camau gweithredu dilynol y mae Prifysgol De Cymru yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Y mecanweithiau systematig sy'n cael eu datblygu i wella prydlondeb a natur yr adborth o asesiadau ar draws holl ddarpariaeth y Brifysgol (Disgwyliad B6).
- Y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ddatblygu a chyhoeddi llawlyfrau penodol ar gyfer pob cwrs (Disgwyliad C).

Ynghylch Prifysgol De Cymru

Ffurfiwyd Prifysgol De Cymru (y Brifysgol) ar 11 Ebrill 2013 drwy gyfuno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Ar hyn o bryd, dyma'r brifysgol fwyaf yng Nghymru, a'r degfed fwyaf yn y DU. Ar amser yr uno ffurfiol, roedd gan y Brifysgol 33,000 o fyfyrwyr, ac mae'n bwriadu cynnal o leiaf 30,000 o fyfyrwyr. Mae gan y Brifysgol hefyd 788 o staff academaidd a 1,399 o staff cymorth, sef cyfanswm o 2,187, neu 1,933 cyfwerth ag amser llawn.

Y Brifysgol yw prif sefydliad Grŵp sy'n cynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) a Y Coleg Merthyr Tudful. Mae pob un ohonynt yn is-gwmni y mae'r Brifysgol yn berchen arno'n gyfan gwbl. CBCDC yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n un o'r prif ddarparwyr yn y DU o ran hyfforddiant ymarferol arbenigol yn seiliedig ar berfformio ym myd cerddoriaeth, drama a galwedigaethau perthnasol eraill. Disgrifir Y Coleg Merthyr Tudful fel "coleg cymunedol go iawn", sy'n "cael effaith fawr ar yr economi yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd", a hynny i raddau mawr drwy gyfranogaeth yn y fenter Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI).

Cenhadaeth y Brifysgol yw "ychwanegu gwerth at fywydau, economïau a chymunedau drwy addysg, arloesedd ac ymgysylltiad sy'n ysbrydoli, yn ymatebol, yn greadigol ac yn broffesiynol". Ei gweledigaeth yw "Bod yn Brifysgol y mae pobl yng Nghymru a thu hwynt yn ei dewis, boed yn fyfyrwyr, yn sefydliadau ac yn gymunedau sy'n gwerthfawrogi addysg sy'n canolbwyntio ar feysydd galwedigaethol ac ymchwil gymhwysol sy'n cynnig atebion i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas a'r economi". Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i addysg alwedigaethol ac ymchwil cymhwysol, ac mae'n falch o fod yn "adnabyddus am ein hagenda ar gyfer ehangu mynediad a chynnydd o fewn ein cymuned leol ynghyd â'n cysylltiadau â byd busnes a diwydiant sy'n tyfu".

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar bum campws, ym Mhontypridd, Caerdydd, Caerllion a Chasnewydd. Mae ganddi hefyd ganolfan yn Llundain sydd heb recriwtio unrhyw fyfyrwyr ac mae dyfodol presenoldeb y Brifysgol o dan ystyriaeth. Mae darpariaeth academaidd y Brifysgol wedi'i threfnu'n bedair cyfadran: Busnes a Chymdeithas; Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth; y Diwydiannau Creadigol; a Gwyddorau Bywyd ac Addysg.

Mae gan y Brifysgol 6,141 o fyfyrwyr mewn darpariaeth a ddarperir gydag eraill. Ar amser yr adolygiad, roedd gan y Brifysgol 97 o bartneriaethau: 10 o golegau addysg bellach yn y DU; 29 o sefydliadau eraill yn y DU; 15 o sefydliadau tramor a oedd yn darparu dyfarniadau'r Brifysgol; a 42 o 'bartneriaethau eraill', a'r mwyafrif ar ffurf trefniadau cynnydd. Mae'r Brifysgol wedi ffurfio cynghrair strategol gyda phum coleg addysg bellach yn Ne Cymru. Mae'r Brifysgol yn ceisio datblygu rhagor o bartneriaethau rhyngwladol, a'i nod yw y bydd pob trefniant newydd o'r fath yn ymdrin ag ystod o ddisgyblaethau academaidd, a byddai'n debygol o gynnwys darpariaeth addysgol ac ymchwil.

Ers sefydlu'r Brifysgol yn ffurfiol ym mis Ebrill 2013, mae'r Brifysgol wedi bod ar yr hyn mae'n ei alw'n "daith gyfuno" a thrwy honno mae'n "adeiladu ar dreftadaeth y ddau sefydliad". Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Brifysgol wedi wynebu, ac mae'n parhau i wynebu'r her o greu "gweledigaeth a diwylliant cyffredin" ar draws y Brifysgol "drwy fabwysiadu un dull gweithredu cyson newydd ar draws ein systemau a'n prosesau i gyd".

Ymysg y datblygiadau allweddol, mae ailstrwythuro'r cyfadrannau a'r ysgolion, a chau ei Champws Caerllion (proses i'w chwblhau yn 2016).

Mae argymhellion yr adolygiadau diwethaf o Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd wedi derbyn sylw. Mae rhai o ganlyniadau'r camau gweithredu yma a gymerwyd gan y ddwy brifysgol flaenorol wedi'u cynnwys ym mhrosesau'r Brifysgol bresennol, ac mae rhai'n dal i fynd yn eu blaen.

Daethpwyd â phroblemau mewn perthynas ag un o bartneriaethau cydweithredol tramor y Brifysgol i sylw ASA yn syth cyn i'r adolygiad presennol yma digwydd. Drwy ei Chynllun Pryderon, cyfeiriodd ASA y mater yma at yr adolygiad presennol hwn, yn unol â'i gweithdrefn ar gyfer cyfeirio pryderon at adolygiadau.[4]

[4] Cyfeirio pryderon at adolygiadau: www.qaa.ac.uk/cy/Complaints.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol De Cymru

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn rhestr termau byr ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae rhestr termau llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y dull adolygu, ac hefyd ar wefan ASA.

1 Y Feirniadaeth am: Osod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau

Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- **gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol**
- **sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol**
- **enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch**
- **dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif**

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnod Pwnc perthnasol.

Cod Ansawdd, *Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academaidd*

Y canfyddiadau

1.1 Mae'r ddogfen hunanwerthusiad yn datgan bod Fframwaith ar gyfer Rheoli Safonau Academaidd ac Ansawdd 2014-15 y Brifysgol (y Fframwaith) yn rhoi sylw dyledus i'r Cod Ansawdd, *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), a Datganiadau Meincnod Pwnc.

1.2 Mae'r Fframwaith yn datgan, fel un o'i egwyddorion craidd, y bydd "safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol yn cysylltu â'r rheiny a nodir yn y FfCChC [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru] ac yn y FHEQ ac y byddent yn gymaradwy â'r rheiny sydd gan brifysgolion eraill yn y DU". Mae'r cymwysterau wedi'u rhestru yn y rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir ac mae'r gofynion credyd ar gyfer dyfarniadau wedi'u disgrifio hefyd yn y rheoliadau.

1.3 Mae'r Fframwaith yn gofyn fod pob cwrs yn cael ei ddatblygu gan gymryd i ystyriaeth yr holl bwyntiau cyfeirio mewnol ac allanol perthnasol, gan gynnwys y Cod Ansawdd a disgwyliadau unrhyw gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio (cyrff PSRB); mae pwyntiau cyfeirio cefnogol wedi'u cynnwys ar ddiwedd is-adrannau'r Fframwaith fel canllaw. Mae'r fframweithiau rheoliadol wedi'u hesbonio yn y Canllaw Dylunio Cwricwlwm, sy'n cyfeirio at Fframweithiau Cymwysterau Ewropeaidd. Mae fframwaith y Brifysgol yn cynnwys canllawiau ASA am nodweddion cymhwyster a datganiad y Brifysgol ar gydnawsedd gyda'r System Trosglwyddo Credydau Ewropeaidd.

1.4 Mae'r Fframwaith hefyd yn gofyn bod yr holl gyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo yn cael eu llywio gan fanylebau cwrs ffurfiol, sy'n cynnwys amcanion cyffredinol a chanlyniadau dysgu'r cwrs. Mae'r broses ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo cyrsiau'n gofyn ystyried canlyniadau dysgu'r cwrs ynghyd â'r disgrifwyr cymwysterau perthnasol, y Datganiadau Meincnod Pwnc a'r Datganiadau Nodweddion Cymhwyster perthnasol a, lle bo'n briodol, gofynion y cyrff PSRB.

1.5 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y dyfarniadau'n alinio'n briodol â'r FHEQ, y FfCChC a Datganiadau Meincnod Pwnc drwy adolygu: rheoliadau'r Brifysgol; prosesau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu cyrsiau; dogfennaeth ac adroddiadau prosesau cymeradwyo a monitro cyrsiau; manylebau cyrsiau; manylebau modiwlau; ac adroddiadau arholwyr allanol, a thrwy gwrdd ag amrediad o'r staff.

1.6 Roedd y dogfennau a welwyd gan y tîm adolygu, a'r trafodaethau gyda staff, yn cadarnhau bod y broses gymeradwyo'n gofyn i'r timau cwrs ddangos bod canlyniadau dysgu'r cyrsiau a'r modiwlau ar y lefel briodol, ac wedi'u cyfateb yn effeithiol gyda'r disgrifwyr cymhwyster yn y FHEQ a'r FfCChC, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddatganiadau Meincnod Pwnc, nodweddion cymhwyster, gofynion cyrff PSRB a phwyntiau cyfeirio allanol eraill. Mae safonau'r dyfarniadau wedi'u cadarnhau yn adroddiadau'r arholwyr allanol.

1.7 Roedd ystyriaeth o'r dogfennau a thrafodaethau gyda staff yn cadarnhau bod y darparwr yn cyflogi'r FHEQ, y FfCChC a Datganiadau Meincnod Pwnc yn effeithiol yn ei brosesau a gyhoeddir ar gyfer cymeradwyo, adolygu ac asesu. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.

Cod Ansawdd, *Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd*

Y canfyddiadau

1.8 Mae gan y Brifysgol ddwy gyfres o Reoliadau Academaidd cynhwysfawr: rheoliadau o'r gorffennol i fyfyrwyr oedd wedi eu cofrestru'n wreiddiol ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, a Rheoliadau Academaidd cyfredol Prifysgol De Cymru, sy'n berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru o fis Medi 2013 ymlaen a'r holl fyfyrwyr oedd wedi eu cofrestru'n flaenorol ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae hefyd gyfres o Reoliadau Ymchwil i'r Brifysgol gyfan.

1.9 Mae'r Rheoliadau Academaidd cyfredol yn deillio o reoliadau blaenorol Prifysgol Morgannwg. Maent yn mynd i gael eu hadolygu a'u diweddaru ym mis Medi 2016 i alinio gyda chanlyniadau adolygiad cynhwysfawr o strategaethau academaidd. Hyd yr amser hwnnw, mae'r Rheoliadau Academaidd ac Ymchwil yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Pwyllgor Ymchwil yn y drefn honno, mewn ymateb i faterion a godir gan fyrddau asesu, i sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas. Cymeradwyir addasiadau i reoliadau gan y Bwrdd Academaidd.

1.10 Mae'r trefnau rheoli ansawdd academaidd wedi eu codio yn y Fframwaith (paragraff 1.1), sy'n cynnwys adrannau ar wahân ar gyfer darpariaeth a addysgir, darpariaeth gydweithredol a darpariaeth ymchwil, ac hefyd mewn amrywiol godau ymarfer ar gyfer graddau ymchwil. Mae'r Fframwaith wedi ei fapio'n gynhwysfawr i God Ansawdd y DU ac mae'n disgrifio'r prosesau allweddol a ddefnyddir i sicrhau bod y safonau wedi eu gosod. Mae'r cyrsiau a chwricwla wedi eu diffinio gan ddefnyddio manylebau cwrs a modiwl safonol.

1.11 Mae Siarter y Myfyrwyr ar waith, a defnyddir cyfres fwy cyffredinol o reoliadau a chanllawiau i fyfyrwyr i gyfeirio gweithdrefnau megis y rheiny ar gyfer apeliadau a chwynion (gwelwch adran B9), cywirdeb academaidd, addasrwydd i arfer, ac addasrwydd i astudio.

1.12 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy graffu'r amrywiol reoliadau a fframweithiau, drwy ddarllen cofnodion a chylchoedd gorchwyl cyfarfodydd pwyllgorau, ac mewn cyfarfodydd gyda staff a myfyrwyr.

1.13 Mae'r Rheoliadau, y Fframwaith a'r codau ymarfer ar gael yn hawdd ar-lein ar wefan Gwasanaeth Ansawdd a Safonau Academaidd y Brifysgol. Mae'r Bwrdd Academaidd yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd am achosion o wyriad bach oddi wrth reoliadau asesu safonol y Brifysgol lle, yn eithriadol, mae gofynion rhanddeiliaid allanol, megis safonau cyrff PSRB, yn gofyn amdano a chlywodd y tîm, er bod caniatâd i wneud newidiadau bychain o'r fath ar gyfer cyrsiau a ddarperir mewn sefydliadau partner, nid oedd yr angen wedi codi eto.

1.14 Wrth ddarllen, clywodd y tîm adolygu bod gweithredu dwy gyfres o reoliadau academaidd cyfochrog wedi bod yn her i dimau cwrs, ond roedd yn gwerthfawrogi mai dim ond oes gyfyngedig oedd ar ôl gan y rheoliadau o Brifysgol Cymru, Casnewydd gynt.

1.15 Mae'r templed manwl ar gyfer manylebau cwrs a ddefnyddir gan y Brifysgol yn cyflawni disgwyliadau cenedlaethol. Mae manylebau modiwlau'n briodol ac maent yn mapio asesiad at ganlyniadau dysgu. Mae tystiolaeth i ddangos bod y Fframwaith yn sicrhau bod timau cynllunio'n ymgysylltu'n gywir gyda'r Datganiadau Meincnod Pwnc a'r disgrifwyr lefel

credyd yn y FHEQ sy'n berthnasol. Mae'r Canllaw Dylunio Cwricwlwm yn cysylltu agwedd y Brifysgol tuag at gynllunio'r cwricwlwm i mewn i'r fframwaith rheoliadol.

1.16 Nododd y tîm adolygu hefyd bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y rheoliadau ar gyfer graddau a addysgir a'r rheiny ar gyfer graddau ymchwil, gan arwain at ddiffyg eglurder dilynol yn y fframweithiau a'r rheoliadau ar gyfer graddau ymchwil y Brifysgol lle mae elfennau o ddeunydd a addysgir wedi eu cynnwys.

1.17 Nid oedd y tîm adolygu'n gallu gweld yn ei drafodaethau gyda staff nac yn ei ddarllen, a oedd model trosfwaol y Brifysgol ar gyfer doethuriaethau proffesiynol yn alinio gyda'r disgrifiadau cenedlaethol yn y FfCChC, y FHEQ a'r disgrifwyr cymhwyster gan ASA.

1.18 Mae'r Rheoliadau Graddau Ymchwil yn dangos y gallai'r Brifysgol ddyfarnu nifer o wahanol ddoethuriaethau proffesiynol, er bod y tîm adolygu wedi clywed mai dim ond dyfarniad Doethur mewn Gweinyddu Busnes (DBA) sy'n cael ei gynnig. Er bod deunyddiau hyrwyddo a manylebau cwrs y Brifysgol ar gyfer y dyfarniad DBA yn dangos bod y cwrs yn alinio gyda'r FHEQ, roedd y diffyg disgrifiad trosfwaol gan y Brifysgol neu fframwaith ar gyfer dyfarniadau doethuriaeth broffesiynol yn golygu na allai'r tîm gadarnhau aliniad ar gyfer y doethuriaethau proffesiynol eraill.

1.19 Nid oedd y rheoliadau'n dangos yn glir, naill ai mewn cyrsiau gradd meistr drwy ymchwil, neu ddoethuriaethau proffesiynol, pa gyfraniad a wnaeth yr elfen a addysgir i'r asesiad cyffredinol ar gyfer y dyfarniad. Mae'r rheoliadau ar gyfer dyfarniadau meistr a addysgir yn dangos y bydd graddau o'r fath wedi eu dosbarthu, er nad yw'r Rheoliadau Graddau Ymchwil yn esbonio a fyddai gradd meistr drwy ymchwil, a allai gynnwys elfennau a addysgir, wedi ei dosbarthu hefyd. Mewn trafodaethau gyda staff fe ddaeth hi'n glir, er gwaethaf yr amwysedd yn y Rheoliadau, nad oedd y dyfarniadau hyn wedi eu dosbarthu.

1.20 Clywodd y tîm adolygu hefyd bod y Brifysgol yn bwriadu i gyrsiau gradd meistr drwy ymchwil newydd gynnwys dim ond prosiect ymchwil, gan dynnu unrhyw amwysedd ynghylch cyfraniad elfennau a addysgir. Ond, byddai'r graddau ymchwil MA a MSc a enwir, sy'n cynnwys elfennau a addysgir yn parhau i gael eu cymeradwyo os byddai cyfadrannau'n dymuno hynny. Dywedwyd wrth y tîm y byddai'r dyfarniadau hyn wedi eu cymeradwyo mewn digwyddiadau dilysu, ac y byddai strwythurau'r cyrsiau wedi eu disgrifio mewn manylebau cyrsiau. Ond, nid oedd yn gallu dod o hyd i ddisgrifiadau o'r fath yn y System Gwybodaeth Integredig ar y Cwricwlwm (ICIS), cronfa ddata cyrsiau'r Brifysgol, neu yn yr amrywiol reoliadau graddau ymchwil a chodau ymarfer. Gwelwch hefyd A2.2.

1.21 Yn 2013, roedd y Brifysgol ei hun wedi cydnabod y dylai wahaniaethu'n fwy eglur rhwng y fframweithiau rheoliadol ar gyfer graddau a addysgir a'r rheiny ar gyfer graddau ymchwil meistr. Roedd trafodaethau dilynol yn dangos nad oedd y bwriad yma wedi ei weithredu, ac roedd yn atgyfnerthu barn y tîm adolygu y byddai cymuned academaidd y Brifysgol yn elwa o well eglurder yn ei threfniadau rheoleiddio ar gyfer graddau ymchwil sy'n cynnwys elfennau o ddeunydd a addysgir. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl gyrsiau gradd meistr drwy ymchwil a doethuriaethau proffesiynol wedi'u rheoleiddio'n briodol o fewn fframweithiau ar gyfer dyfarniadau sydd wedi'u diffinio'n glir.

1.22 Er bod y Brifysgol wedi gorchfygu heriau arwyddocaol yn llwyddiannus drwy uno dwy gyfres o reoliadau academaidd, ac wedi datblygu fframwaith rheoliadol cynhwysfawr sy'n addas i'r pwrpas i raddau mawr, mae rhai achosion nodedig o amwysedd neu esgeulustod yn parhau yn ei rheoliadau ar gyfer graddau ymchwil sy'n cynnwys elfen a addysgir sy'n cael ei hasesu. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad, er bod fframweithiau rheoliadol y Brifysgol yn cyflawni'r Disgwyliad yn gyffredinol, bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Cod Ansawdd, *Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd*

Y canfyddiadau

1.23 Mae cronfa ddata ganolog y Brifysgol, ICIS, yn cadw manylion yr holl ddarpariaeth a addysgir safonol o'r cam cymeradwyo cyrsiau, trwy gyflenwi, hyd ei gau. Mae manylebau cwrs yn rhoi manylion amcanion addysgol, canlyniadau dysgu a strwythur y cwrs. Nid yw lefel y FHEQ wedi ei datgan mewn manylebau cyrsiau, ond mae'n ymhlyg yn natur y cymhwyster sydd wedi ei fapio at y FHEQ drwy'r rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir. Mae manylebau modiwlau'n cynnwys y lefel credyd.

1.24 Mae dogfennaeth y broses o gymeradwyo cyrsiau'n nodi bod yn rhaid i'r holl gyrsiau a addysgir gydymffurfio â rheoliadau academaidd y Brifysgol ar gyfer darpariaeth a addysgir, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth ofynion penodol unrhyw gyrff PSRB. Mae'r ddogfennaeth yma hefyd yn cynnwys manylion y gofynion ar gyfer strwythur y cyrsiau, eu cynnwys a'r strategaeth asesu; mae'r ddau olaf wedi eu disgrifio yn y manylebau modiwlau. Mae'r broses ar gyfer diweddaru'r cwricwlwm rhwng dilysiadau wedi ei hesbonio yn y drefn gymeradwyo cyrsiau. Mae angen cymeradwyaeth ar wahanol lefelau yn dibynnu ar natur y newid. Mae prosesau tebyg a gofynion tebyg am ddogfennaeth yn berthnasol i ddarpariaeth gydweithredol ac maent wedi eu hesbonio yn y Fframwaith ar gyfer Safonau ac Ansawdd - Rhan B: Darpariaeth Gydweithredol.

1.25 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy graffu dogfennaeth y broses o gymeradwyo cyrsiau, sy'n cynnwys y prosesau ar gyfer diweddaru cofnodion diffiniol rhwng dilysiadau, dogfennaeth ddilysu, manylebau cyrsiau, cronfa ddata ICIS, dogfennaeth ar newidiadau i gyrsiau, a chofnodion y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd; a thrwy gyfarfodydd gyda staff.

1.26 Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau ar gyfer cynhyrchu a diweddaru manylebau cwrs ar gyfer cyrsiau a addysgir wedi eu dogfennu'n dda ac yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol, ac roedd manylebau cyrsiau wedi eu cynnwys mewn llawlyfrau myfyrwyr, lle'r oedd llawlyfrau ar gael. Mae cronfa ddata ICIS yn dal yr holl fanylebau cyrsiau, heblaw ar gyfer rhai CBCDC, a ddelir ar system gofnodion y Coleg ei hun. Ond nid yw cronfa ddata ICIS bob amser wedi ei diweddaru: mae rhai manylebau cwrs wedi eu cofnodi fel 'ddim ar gael' neu maent wedi mynd yn hen; ac nid yw'r gronfa ddata'n cynnwys darpariaeth ansafonol, er enghraifft doethuriaethau proffesiynol. Nid oedd manylebau cwrs ar gael ar gyfer rhai graddau ymchwil sydd ag elfennau a addysgir. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod cofnod diffiniedig o bob cwrs a chymhwyster, yn cynnwys elfennau a addysgir neu elfennau strwythuredig o ddyfarniadau ymchwil, yn gyfredol, wedi eu cymeradwyo ac wedi'u cynnal.

1.27 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer cynnal cofnodion diffiniol o gyrsiau a addysgir a chymwysterau sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu cyrsiau, a'u monitro a'u hadolygu. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ond bod risg canolig oherwydd manylebau cyrsiau sydd wedi mynd yn hen neu bod rhai ar goll.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academaidd eu hunain.

Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

Y canfyddiadau

1.28 Mae'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Safonau Academaidd ac Ansawdd yr holl ddarpariaeth, y rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir, a'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo cyrsiau'n gofyn bod canlyniadau dysgu a gynigir yn cael eu dogfennu a bod y dogfennau'n cael eu craffu'n fanwl yn ystod y broses o gymeradwyo cyrsiau. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu llunio i sicrhau bod safonau wedi eu gosod yn unol â'r FHEQ, y FfCChC, a Datganiadau Meincnod Pwnc, a bod y cynigion yn cwrdd â gofynion a rheoliadau'r Brifysgol ei hun. Mae manylion y trefniadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ymchwil i'w cael yn adran C y Fframwaith ac yn y Rheoliadau Graddau Ymchwil. Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn goruchwylio'r amserlen ddilysu, ac hefyd iechyd y portffolio (drwy'r broses o adolygu'r portffolio'n flynyddol).

1.29 Mae asesiadau wedi'u mapio yn erbyn canlyniadau dysgu'r modiwl ac mae'r broses gymeradwyo'n gwirio bod y canlyniadau dysgu wedi eu gosod ar lefel briodol a'u halinio â'r FHEQ. Darperir cyngor ac arweiniad am strategaethau asesu addas a meini prawf priodol i alluogi myfyrwyr i ddangos cyflawniad y canlyniadau dysgu. Cymeradwyir bob cwrs am uchafswm o chwe blynedd. Mae gofynion y cyrff PSRB wedi eu cynnwys yng nghynllun y cwrs, lle bo'n briodol.

1.30 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio fframwaith ansawdd a safonau'r Brifysgol, y rheoliadau, y gweithdrefnau a'r canllawiau sy'n llywio'r prosesau cymeradwyo, a thrwy ddarllen dogfennaeth ddilysu, adroddiadau panelau cymeradwyo, cofnodion pwyllgorau, a thrwy siarad gyda staff.

1.31 Roedd y dogfennau a'r trafodaethau'n dangos bod y broses o gymeradwyo cyrsiau'n ymdrin yn eglur ag aliniad gyda'r FHEQ, y FfCChC a Datganiadau Meincnod Pwnc. Mae'r mecanweithiau i sicrhau safonau wrth gynllunio a chymeradwyo cyrsiau wedi'u dogfennu'n gynhwysfawr ac mae'r staff yn eu deall. Mae cysylltiad eglur rhwng strategaethau asesu, canlyniadau dysgu a lefel y dyfarniad, gyda chanllawiau cynhwysfawr i'r staff i sicrhau bod asesiadau wedi eu llunio ar lefel briodol.

1.32 Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

Y canfyddiadau

1.33 Mae polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo cyrsiau, a ddiffinnir yn y Fframwaith, yn sicrhau bod modiwlau a chyrsiau'n alinio gyda Datganiadau Meincnod Pwnc priodol, y FHEQ a'r FfCChC, ac felly'n sicrhau safonau trothwy. Mae'r gweithdrefnau'n ystyried gofynion cyrff PSRB hefyd, fel y bo'n briodol. Mae Canllaw i Ddatblygwr Cyrsiau a Chanllaw Dylunio Cyrsiau'n cefnogi staff i ddatblygu modiwlau a chyrsiau, ac yn hybu cysondeb a chydraddoldeb mewn darpariaeth ar draws y Brifysgol. Mae'r cynlluniau i weithredu Glasbrint Academaidd newydd ar gyfer cynllunio cyrsiau o 2015-16 ymlaen yn bwriadu darparu fframwaith safonol ar gyfer strwythuro a chynllunio cyrsiau gradd baglor a fydd yn cynnwys dulliau dysgu arloesol a gwell profiadau cyflogadwyedd.

1.34 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu a chymeradwyo modiwlau a chyrsiau hefyd yn atgyfnerthu arwyddocâd asesu'r dysgu ar sail y canlyniadau o fewn y cwricwlwm academaidd ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Mae canlyniadau dysgu wedi eu manylu ar lefel cwrs a modiwl, a'u mapio yn erbyn safonau trothwy'r DU. Defnyddir Llawlyfrau Modiwl a Chwrs i ddangos sut mae modiwlau'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau dysgu'r cwrs ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol am asesiad.

1.35 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

1.36 Trwy drafodaethau gyda myfyrwyr ac academyddion, canfu'r tîm adolygu bod arddull a chynnwys y llawlyfrau cwrs yn amrywiol. Mae'r Brifysgol wrthi'n adolygu ei thempled ar gyfer llawlyfrau i hybu mwy o gysondeb mewn gwybodaeth. (Gwelwch hefyd C.) Mae myfyrwyr hefyd yn gorfod cael mynediad at y dogfennau Asesu ar gyfer Dysgu a Thariff Asesu sy'n arwain a hybu eu dealltwriaeth o ofynion a galwadau asesu, gan gynnwys cyfleoedd i gwblhau ac archwilio asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.37 Ceir proses o graffu a safoni cyflawniad y myfyrwyr o safonau academaidd ar lefel israddedig ac ôl-raddedig gan arholwyr allanol annibynnol sydd ag arbenigedd academaidd perthnasol. Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, mae cynrychiolwyr o gyrff PSRB neu gyrff achredu'n darparu arbenigedd hefyd mewn asesu cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr. Mae gofyn i arholwyr allanol fynd i Fyrddau Asesu Pwnc a Dyfarniad y Brifysgol er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb mewn penderfynu cynnydd a chyflawniad myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn adolygu polisïau a gweithdrefnau asesu'n rheolaidd, a chymerir camau lle gwelir anghysonderau neu lle mae angen gwneud addasiadau. Mewn crynodeb o adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer 2012-13 a 2013-14 datgelwyd bod nifer fechan o adroddiadau heb gael eu cyflwyno i'r Brifysgol erbyn mis Mawrth y flwyddyn ddilynol ac felly na ellid eu defnyddio i hysbysu monitro cyrsiau blynyddol.

1.38 Caiff y safonau eu monitro drwy adolygiadau blynyddol o fodiwlau ac adroddiadau cwrs blynyddol. Mae adolygiadau blynyddol o fodiwlau'n cael eu cyflwyno i'r Byrddau Asesu Pwnc pan fo proffiliau modiwl yn cael eu hystyried; mae hyn yn galluogi arholwyr allanol i ystyried ac ymateb i'r adolygiadau modiwl priodol. Mae Byrddau Cwrs yn derbyn ac yn ystyried crynodeb o'r adroddiadau cwrs blynyddol. (Gwelwch hefyd A2.2 a B7.)

1.39 Canfu'r tîm adolygu ar y cyfan bod gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio a chymeradwyo cyrsiau, a'i rheoliadau a gweithdrefnau asesu, yn sicrhau aliniad safonau gyda disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy. Ar y sail yma, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

Y canfyddiadau

1.40 Mae'r Brifysgol yn monitro cyflawniad ei safonau academaidd ei hun, a safonau trothwy'r DU, drwy fecanweithiau monitro'n flynyddol; adolygu yn y cyfnod interim pan fo'n cael ei ystyried yn angenrheidiol; ac adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau bob chwe blynedd. Mae'r Brifysgol yn disgwyl y dylai unrhyw faterion yn ymwneud â safonau perfformiad y myfyrwyr a gweithrediad y cyrsiau gael eu hamlygu a'u trafod ar fyrddau asesu ym mhresenoldeb arholwyr allanol, ac y dylid eu cynnwys yn adroddiad yr arholwyr allanol. Darperir data am berfformiad y myfyrwyr, ar sail y dangosyddion allweddol, gan yr Uned Gwybodaeth Myfyrwyr a Rheoli ar-lein, a disgwylir i arweinwyr modiwlau ei ddefnyddio yn eu hadroddiadau monitro blynyddol.

1.41 Mae arweinwyr cwrs yn trefnu adolygiadau cwrs blynyddol, sy'n edrych ar yr holl adroddiadau modiwl, gan gynnwys y rheiny o ddarpariaeth partneriaid cydweithredol, lle bo'n berthnasol. Wrth werthuso'r cwrs, mae angen i arweinydd y cwrs gymryd i ystyriaeth adroddiadau'r arholwyr allanol ar lefel y modiwlau a'r cwrs, adborth gan fyfyrwyr, adborth gan gyflogwyr (os yw'n berthnasol), a data ystadegol y myfyrwyr i gynhyrchu adroddiad gwerthusol a chynllun gweithredu, gan bennu unrhyw broblemau sy'n ymwneud â safonau. Rhoddir data meincnodi mewnol i arweinydd y cwrs yn rhan o grynhoad y cwrs; mae hyn yn eu galluogi i gymharu data dros gyfnodau o dair blynedd, neu gyda data o'r Brifysgol neu'r cyfadrannau. Mae'r Deoniaid neu Bennaeth CBCDC yn defnyddio adroddiadau cwrs i gynhyrchu adroddiadau a chynlluniau gweithredu i'r cyfadrannau sy'n cael eu hadolygu gan Bwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau/Colegau. Ar lefel sefydliadol, mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn derbyn adroddiadau, cynlluniau gweithredu a chofnodion bwrdd o'r cyfadrannau ac yn pennu unrhyw gamau gweithredu ar lefel y Brifysgol sy'n codi o'r broses. Y cam olaf yw adroddiad cryno a chynllun gweithredu a gyflwynir i'r Bwrdd Academaidd i'w gymeradwyo.

1.42 Mae'r ddarpariaeth bartneriaeth gydweithredol yn cael ei monitro drwy broses debyg iawn, gydag aelodaeth bwrdd y cwrs wedi'i ymestyn i gynnwys staff partneriaethau. Mae'r partner yn cynhyrchu adroddiad cwrs sy'n bwydo i mewn i'r adroddiad cwrs yn y Brifysgol neu'n uniongyrchol i'r adroddiad cyfadran.

1.43 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy ddarllen y Fframwaith ar gyfer Rheoli Safonau Academaidd ac Ansawdd, gweithdrefnau ar gyfer monitro blynyddol a'r atodiadau, cofnodion Pwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau/Colegau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, adolygiadau modiwl, adroddiadau cwrs, dogfennau sy'n dangos newidiadau yn codi o'r monitro blynyddol, cynlluniau gweithredu'r cyfadrannau, y porth Gwybodaeth Rheoli, adroddiadau arholwyr allanol, yr adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd i'r Bwrdd Academaidd, cofnodion y byrddau asesu a thrafodaethau gyda staff.

1.44 Nid oes gofyniad eglur penodol yn y broses o fonitro cyrsiau neu yn y templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol i gadarnhau bod cyrsiau'n cael eu darparu yn unol â manylebau'r cwrs, eu bod yn cwrdd â safonau trothwy'r DU, eu bod yn dilyn rheoliadau'r Brifysgol, neu'n parhau i fod yn gyfredol; ond mae'r cadarnhad yma'n ymhlyg yn y ffordd mae'r broses fonitro'n alinio disgwyliadau mewnol ac allanol. Cadarnhaodd y staff fod yr agweddau yma'n cael eu hystyried yn rhan o natur holistig y broses o fonitro cyrsiau. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr yn gymaradwy gyda sefydliadau eraill.

1.45 Mae gweithdrefnau'r Brifysgol yn ymdrin ac yn monitro aliniad gyda safonau trothwy, ac yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd ei dyfarniadau. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academaidd i gynghori a yw:

- **safonau academaidd trothwy'r DU wedi eu gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academaidd y corff dyfarnu graddau wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol.**

Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

Y canfyddiadau

1.46 Ceisir cyngor, arweiniad a barn arbenigwyr allanol wrth ddatblygu, cymeradwyo ac adolygu/ail-ddilysu darpariaeth academaidd y Brifysgol. Mae hyn yn golygu bod modd craffu'n annibynnol ar y safonau academaidd a ddisgwylir gan y Brifysgol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo cyrsiau a thrwy gydol y broses o'u darparu. Mae hefyd yn sicrhau cydymffurfiad gyda fframwaith academaidd ar gyfer addysg uwch y DU a gofynion y cyrff PSRB neu'r asiantaethau achredu perthnasol.

1.47 Mae panelau dilysu ac adolygu/ail-ddilysu cyfnodol yn cynnwys academyddion allanol neu ymarferwyr proffesiynol addas fel aelodau panel, i ddarparu craffu annibynnol ac i wirio bod darpariaeth y cwrs a ddilyswyd yn cwrdd â safonau trothwy ar gyfer dyfarniadau academaidd ac unrhyw ofynion sydd gan gyrff PSRB perthnasol. Gellir ychwanegu at aelodau allanol y panelau gyda chyflogwr neu ymarferydd proffesiynol, lle bo'n briodol. Penodir arholwyr allanol ar gyfer bob cwrs yn dilyn cymeradwyaeth gan y Panel Cymeradwyo Arholwyr Allanol.

1.48 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

1.49 Canfu'r tîm adolygu bod arholwyr allanol yn derbyn llawlyfr rhagarweiniol a chanllawiau ar-lein am eu rolau, ac am yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a darperir mentora gan arholwr mwy profiadol os oes ei angen. Mae adroddiadau blynyddol gan bob arholwr allanol yn hysbysu'r prosesau o fonitro cyrsiau a modiwlau mewn ysgolion a chyfadrannau. Cynhyrchir adroddiadau cryno gan arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth yn y Brifysgol ac mewn sefydliadau partneriaeth gydweithredol i'w hadolygu gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod safon academaidd y ddarpariaeth yn cyfateb â safonau'r DU a gofynion y Brifysgol.

1.50 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi penderfynu y dylai ymgynghoriad gyda chyflogwyr fod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu a chymeradwyo cyrsiau wrth iddo geisio hybu addysg sy'n ymatebol i anghenion cyflogwyr a gwella cyfleoedd i ddysgu yn y gweithle.

1.51 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn defnyddio arbenigwyr allanol sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol wrth gynllunio, cymeradwyo, asesu a monitro ei darpariaeth academaidd. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Gosod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.52 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth ynglŷn â gosod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

1.53 Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau. Fodd bynnag, mae rhai problemau a risgiau'n parhau mewn perthynas â rheoliadau ar gyfer graddau ymchwil sy'n cynnwys elfen a addysgir sy'n cael ei hasesu, a manylebau cwrs sydd ar goll neu wedi mynd yn hen. Mae'r tîm adolygu'n cydnabod bod y Brifysgol yn ymdrin ag anghysonderau yn yr wybodaeth a ddarperir mewn llawlyfrau myfyrwyr.

1.54 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gwaith o osod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Cod Ansawdd, *Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni*

Y canfyddiadau

2.1 Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn cynnal goruchwyliaeth sefydliadol o'r amserlen ddilysu a'r mecanweithiau cymeradwyo cyrsiau. Defnyddir y broses o adolygu'r portffolio'n flynyddol, sydd newydd ei chyflwyno, i adolygu iechyd y portffolio yn nhermau recriwtio a ffactorau risg eraill.

2.2 Ar gam cyntaf y broses o gymeradwyo cyrsiau, mae Pwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau, neu Fwrdd Academaidd y Coleg ar gyfer CBCDC, yn defnyddio ffurflen gynnig cwricwlwm i grynhoi'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol i asesu'r risgiau busnes ac academaidd ar y dechrau sy'n debygol o godi wrth ddatblygu a darparu'r cwrs neu'r modiwlau. Os cymeradwyir y cynnig, bydd yn cael ei adolygu'n fewnol gan gyfadrannau eraill a gwasanaethau proffesiynol cyn cael ei anfon ymlaen i'r Grŵp Gweithredol a'r Deoniaid ar gyfer ei graffu a'i gymeradwyo ar lefel y Brifysgol. Os cymeradwyir y cynnig gan y Grŵp Gweithredol a'r Deoniaid, mae cadeirydd Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran, ynghyd â'r Prif Swyddog Ansawdd, yn penderfynu pa broses ddilysu sy'n ofynnol, ar sail y lefel o risg a ragwelir. Mae'r agweddau'n amrywio o ddilysiad llawn gan y Brifysgol gyfan ar gyfer meysydd astudio sy'n newydd neu sy'n cynnwys maes arloesol o'r cwricwlwm, neu sy'n amlddisgyblaethol, i gymeradwyo dulliau astudio newydd ar gyfer cyrsiau cyfredol, a hynny'n gymeradwyaeth ar sail dogfennau. Mae gofynion dilysu arbennig hefyd ar gyfer darpariaeth arbenigol, megis dysgu o bell ar-lein a dysgu drwy gyflogaeth/achrediad.

2.3 Heb sôn am y broses ddilysu a ddefnyddir, disgwylir i bob cwrs gynhyrchu cyfres safonol o ddogfennau a chânt eu craffu gan ddefnyddio yr un meini prawf. Datblygir cyrsiau gan dimau o fewn y sefydliad y disgwylir iddynt ymgynghori gyda chyflogwyr ac ymdrin â phwyntiau cyfeirio mewnol ac allanol. Mae'r Canllaw Dylunio Cwricwlwm yn rhoi arweiniad manwl ar gynllunio'r cwricwlwm a disgwylir i'r timau cwrs ddefnyddio pwyntiau cyfeirio fel y maent wedi eu diffinio gan y Cod Ansawdd, Datganiadau Meincnod Pwnc, a fframweithiau rheoliadol cyrff PSRB a'r Brifysgol ei hun. Gofynnir yn benodol i'r panelau dilysu roi sylwadau am eu defnydd. Mae'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cyrsiau wedi eu diffinio yn y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo cyrsiau.

2.4 Mae aelodau allanol sy'n arbenigwyr yn mynd i ddigwyddiadau cymeradwyo ar lefel y Brifysgol, a phanelau Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran/Coleg. Ar gyfer dilysiadau ar sail dogfennau, darperir allanoldeb trwy ddefnyddio cynghorydd allanol, sy'n rhoi mewnbwn drwy ohebiaeth.

2.5 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy adolygu fframwaith ansawdd a safonau'r Brifysgol, y rheoliadau, y gweithdrefnau, diagramau llif gwaith ICIS, a'r canllawiau sy'n llywio'r prosesau cymeradwyo, a thrwy ddarllen dogfennaeth ddilysu, dogfennau yn ymwneud â phrosesau ac adroddiadau panelau cymeradwyo, dogfennau cynllunio portffolio, cofnodion a chynlluniau gweithredu sy'n adolygu'r hyfforddiant a'r datblygiad staff a ddarperir, a chofnodion Pwyllgor

Sicrhau Ansawdd y Gyfadran/Coleg a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, a thrwy siarad gyda staff a myfyrwyr.

2.6 Mae'r broses o gymeradwyo cyrsiau wedi'i dogfennu'n glir ac yn gynhwysfawr ac mae'n gweithio'n dda, gyda nifer sylweddol o gyrsiau newydd wedi'u dilysu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ystyrir y mwyafrif o'r cyrsiau'n rhai risg canolig, gan gynnwys y rheiny gyda phartner cydweithredol a'r rhai a ddarperir drwy ddulliau o bell ar-lein, a chânt eu dilysu gan ddefnyddio proses y gyfadran. Mae'r staff yn deall y prosesau'n dda. Ond, mae cyfranogaeth myfyrwyr yn y broses yn gyfyngedig ac nid ydynt fel arfer yn aelodau o'r timau neu'r panelau datblygu cwrs, er bod pwyllgorau cwrs yn ymgynghori â hwy a chânt eu gwahodd i rannu eu barn am eu profiadau gyda'r panel dilysu.

2.7 Sylwodd y tîm adolygu bod agweddau arbennig o'r broses o gymeradwyo cyrsiau heb eu gweithredu'n gyson neu'n llawn. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn nodi bod "disgwyl i bob cwrs, heblaw eu bod wedi'u heithrio, gael eu cynnig fel darpariaeth o bell ar-lein"; ac "O fis Ionawr 2014, rhaid i bob cwrs ymgynghori gyda chyflogwyr hefyd". Cadarnhaodd y Brifysgol i'r tîm bod ganddo ffordd bell i fynd o hyd cyn i brosesau o'r fath ddod yn rhannau arferol o'r gwaith o gymeradwyo cyrsiau. Cadarnhaodd hefyd bod y math o ddilysiad wedi'i benderfynu gan uwch reolwyr y cyfadrannau yn hytrach na chadeirydd Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran/Coleg a'r Prif Swyddog Ansawdd, fel y nodir yn y Fframwaith. Rhoddir trafodaeth bellach am brosesau academaidd, a gwneir argymhelliad, o dan Ddisgwyliad B6.

2.8 Ar sail y dystiolaeth o'r broses o adolygu'r portffolio yn nhermau'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer y portffolio, natur ryngweithiol y gwaith craffu, y cynlluniau gweithredu a'r oruchwyliaeth gan Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor, mae'n ymddangos bod y broses yn gadarn ac yn ffurfio sylfaen gref ar gyfer cynllunio'r portffolio. Mae'r potensial yno iddo fod yn arfer da, ond mae'r broses ar gam cynnar yn ei datblygiad ar hyn o bryd ac heb gael ei dogfennu'n ffurfiol a'i hymgorffori eto yn y Fframwaith.

2.9 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod cynllun a gweithrediad cyffredinol y prosesau ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo cyrsiau, yn sicrhau bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

Cod Ansawdd, *Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch*

Y canfyddiadau

2.10 Mae'r Polisi Derbyn yn diffinio'r prosesau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr i gyrsiau a addysgir y Brifysgol. Mae'r polisi hwn wedi cyflawni achrediad ISO9001:2008 ac mae'n berthnasol i holl aelodau Grŵp Prifysgol De Cymru heblaw CBCDC (gwelwch baragraff 2.12). Cafodd ei ysgrifennu i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gyda'r Cod Ansawdd, *Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch*. Mae'r Polisi Derbyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y Fforwm Derbyn. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Diffinnir gweithdrefnau penodol ar gyfer myfyrwyr gradd ymchwil yn y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil (gwelwch B11). Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol i'r Brifysgol, ac mae ei Chynllun Academaidd newydd yn gosod targedau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n symud ymlaen o'i phartneriaid addysg bellach. Mae'r Polisi Derbyn hefyd yn ymgorffori ymrwymiad y Brifysgol i gyfleoedd cyfartal, ac mae'n disgrifio trefnau ar gyfer derbyn ac ystyried cwynion ac apeliadau, ac ymateb iddynt.

2.11 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy graffu ar wybodaeth yn ymwneud â cheisiadau a derbyniadau, a dogfennau'n ymwneud â gweithredu a monitro'r polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Archwiliodd hefyd weithrediad y gweithdrefnau mewn cyfarfodydd gyda myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a gweinyddol.

2.12 Yn dilyn y cyfuniad, mae un system dderbyn sy'n cynnwys meini prawf mynediad wedi'i harmoneiddio, wedi gweithredu o ddechrau cylch derbyn 2013-14. Mae'r system hon yn berthnasol i bob rhan o'r Brifysgol heblaw'r CBCDC; mae gan y Coleg ei wefan a'i drefnau recriwtio ei hun sy'n adlewyrchu ei statws fel conservatoire, a chaiff ei dderbyniadau eu prosesu drwy Conservatoires UCAS. Gosodir gofynion mynediad ar amser cymeradwyo'r cyrsiau.

2.13 Mae arweiniad penodol am brosesau ymgeisio a derbyn i fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig a rhyngwladol a'r rheiny mewn colegau partner yn hawdd cael gafael arno o wefan y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y darperir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, a manylion y trefnau cwyno neu apelio yn erbyn penderfyniadau. Mae gwasanaethau chwilio'n galluogi darpar fyfyrwyr i adolygu a dewis cyrsiau o ddiddordeb yn unol â lefel a dull yr astudio. Mae'r tudalennau am gyrsiau'n cynnig gwybodaeth am leoliad yr astudio, gofynion mynediad, ffioedd, cynnwys y cwrs, lleoliadau gwaith, ac mae'n cynnwys dolenni at Gyfresi Gwybodaeth Allweddol ac UCAS. Mae adnoddau ar-lein yn galluogi myfyrwyr i olrhain eu cais, cofrestru ar gyfer diwrnod agored a gofyn am brosbectws. Mae llinellau ffôn unswydd a chyfeiriadau e-bost y gall darpar ymgeiswyr eu defnyddio i gysylltu â'r Uned Ymholiadau a Mynediadau. Mae cyfres gynhwysfawr o dudalennau unswydd i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n rhoi gwybodaeth benodol am ofynion iaith Saesneg a fisa, ffioedd ac ysgoloriaethau a gwybodaeth ddefnyddiol arall cyn ymadael ac ar ôl cyrraedd. Mewn nifer gyfyngedig o gyrsiau nid yw rhai o'r costau cwrs ychwanegol wedi eu talu gan ffioedd dysgu ac mae'r Brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod y rhain yn glir yn ei gwybodaeth gyhoeddus ac mewn llawlyfrau myfyrwyr.

2.14 Mae Cynllun Dilyniant Cydweithredol y Brifysgol yn dangos dull rhagweithiol sydd wedi'i gynllunio'n ofalus o dderbyn myfyrwyr cyfredol sy'n astudio mewn colegau addysg bellach, lle mae staff yn rhoi cyngor am ymgeisio ac yn cynnig gwybodaeth am y cyrsiau

astudio sydd ar gael, ac am y broses ymgeisio. Darperir sesiynau pwrpasol i fyfyrwyr sy'n astudio mewn colegau partner i'w galluogi i wneud dewisiadau deallus am y cyfleoedd i symud ymlaen sydd ar gael iddynt. Cefnogir y gweithgareddau hyn gan swyddogion cynnydd sydd wedi'u seilio yn yr athrofa UHOVI; maent yn gweithredu'n bennaf ar draws y Gynghrair Strategol, a gallent weithio gyda phartneriaid eraill hefyd.

2.15 Mae gan y Brifysgol gytundebau trosglwyddo ar gyfer safle uwch gyda 14 o bartneriaid rhyngwladol. Mae'r gweithdrefnau i sefydlu'r rhain wedi'u diffinio yn y Fframwaith; mae arweinydd y cwrs yn mapio cwrs y partner yn erbyn y cwrs cyfatebol yn y Brifysgol, ac mae'r arholwyr allanol yn ei graffu cyn i Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran berthnasol ei ystyried ac iddo gael ei gymeradwyo wedi hynny gan ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir yn B10. Gwelodd y tîm adolygu esiampl o fapio a wnaed ac a gyflwynwyd i'r Panel Partneriaethau, er mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd o graffu gan arholwyr allanol. Mae cytundebau trosglwyddo'n nodi bod y Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb am gymeradwyo deunydd cyhoeddusrwydd ac am benderfynu gofynion mynediad.

2.16 Mae staff yn yr Uned Ymholiadau a Mynediadau'n cydlynu'r holl weithgareddau ymholi a mynediad. Maent yn derbyn hyfforddiant ar gyfer eu rôl ac mae cyfres o weithdrefnau safonol yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y gweithredir arferion recriwtio. Cynghorir darpar fyfyrwyr yn barhaus am statws eu cais a'r hyn maent angen ei wneud i'w symud yn ei flaen. Mae myfyrwyr sy'n datgan anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia ac mae'r gwasanaeth hwnnw'n dilyn eu hachos. Unwaith y maent wedi cyrraedd y Brifysgol, datblygir Cynllun Cymorth Unigol iddynt a chaiff ei ddosbarthu i'r staff addysgu perthnasol drwy system rannu data'r Brifysgol.

2.17 Mae Polisi Derbyn y Brifysgol hefyd yn ymwneud â chyrsiau i israddedigion a ddarperir drwy bartneriaethau cydweithredol. Mae gan y partneriaid hynny eu systemau derbyn eu hunain sy'n eu galluogi i brosesu'r rhan fwyaf o'r ceisiadau. Mae unrhyw geisiadau ansafonol yn cael eu pasio i Swyddog Cyswllt y Brifysgol i'w hystyried. Cofrestrir yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny mewn colegau partner, gan y Brifysgol; ac felly, gall y Brifysgol ei sicrhau ei hun bod yr holl recriwtiaid wedi cyflawni ei meini prawf mynediad trothwy.

2.18 Mae'r Fforwm Derbyn yn dilyn proses barhaus o adolygu polisïau a gweithdrefnau, a gwneir hynny hefyd yn rhan o brosesau achredu allanol lle bo'n berthnasol. Er enghraifft, mae adolygiad diweddar wedi galluogi'r Brifysgol i ostwng nifer y myfyrwyr y mae gofyn iddynt fynd i gyfweliad a chyflymu'r broses o wneud cynigion i ymgeiswyr sydd wedi cwrdd â meini prawf mynediad trothwy neu'r rheiny y disgwylir iddynt gwrdd â'r meini prawf hynny.

2.19 Mae'r Brifysgol yn cefnogi ymgeiswyr llwyddiannus drwy ddarparu gwybodaeth fanwl cyn iddynt gyrraedd, a thrwy raglen gynhwysfawr ganolog yr Wythnos Groesawu gyda gweithgareddau'n cael eu cynnal ar wahanol gampysau. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn derbyn gwybodaeth ychwanegol cyn ac ar ôl iddynt gyrraedd, ac maent yn dweud bod hyn yn ddefnyddiol ac wedi'i deilwra i'w hanghenion.

2.20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod systemau derbyn y Brifysgol yn eglur, cynhwysol a dibynadwy. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

Cod Ansawdd, *Pennod B3: Dysgu ac Addysgu*

Y canfyddiadau

2.21 I bob pwrpas, Strategaeth Dysgu ac Addysgu gyfredol y Brifysgol yw strategaeth Prifysgol Morgannwg gynt. Daeth y strategaeth gyfatebol ar gyfer Prifysgol Cymru, Casnewydd i ben yn 2014. Caiff cynnydd yn erbyn targedau diffiniedig a mesuradwy ei fonitro gan y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT); caiff y Datganiadau Monitro Blynyddol a luniwyd o ganlyniad i hyn eu hadolygu gan y Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac yna eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu a'r Grŵp Gweithredol cyn eu cyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

2.22 Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw'r strategaeth gyfredol yn addas mwyach ac mae yn y broses o'i newid am strategaeth newydd sy'n adlewyrchu ei Chynllun Academaidd yn llawn. Y bwriad yw y bydd y strategaeth newydd yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2016. Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu gyfredol a'r broses o weithredu'r Cynllun Academaidd yn cael eu dwyn ymlaen drwy'r Is-grŵp Cylch Oes Myfyrwyr a Phortffolio i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor, y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu, a Phwyllgorau Gwella Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau neu'r Coleg.

2.23 Mae Siarter y Myfyrwyr yn diffinio'n glir beth yw cyfrifoldebau'r Brifysgol a'i myfyrwyr mewn perthynas â dysgu ac addysgu. Mae gofyn i'r staff adolygu'n feirniadol eu harferion addysgu, dysgu ac asesu eu hunain drwy'r Cynllun Myfyrio ac Arsylwi ar Arfer a gyflwynwyd yn ddiweddar. Caiff adnoddau ffisegol a dynol i gefnogi dysgu ac addysgu eu hystyried yn ystod y prosesau ar gyfer datblygu, cymeradwyo, monitro'n flynyddol, adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau.

2.24 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

2.25 Mae Cynllun Academaidd newydd y Brifysgol wedi'i lunio'n dda, ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r myfyrwyr ym meysydd dysgu a chyflogadwyedd. Mae'n diffinio ystod o dargedau gyda strategaethau a thargedau mesuradwy sy'n eu tanategu y bydd yn gallu eu defnyddio i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r cynllun. Mae'r Brifysgol wedi datblygu Glasbrint Academaidd hefyd yn ddiweddar. Cafodd ei greu mewn ymateb i'r Cynllun Academaidd, a'i hysbysu gan ganlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC). Mae'n cael ei gyflwyno i sicrhau bod profiadau dysgu ac addysgu'r myfyrwyr yn gyson. Ar hyn o bryd, mae'r Glasbrint yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd, ond mae rhai o'i agweddau'n hysbysu prosesau ar gyfer dilysu ac ail-ddilysu cyrsiau yn barod.

2.26 Mae'r Brifysgol yn cynnig rhai cyrsiau gradd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn bwriadu cynyddu nifer y cyfleoedd i'r myfyrwyr ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy wneud penodiadau mewnol newydd a thrwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.27 Ystyrir cynnwys y cwricwlwm, a dulliau a chyfleoedd dysgu ac addysgu i fyfyrwyr ddysgu sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses o ddatblygu cyrsiau a chaiff y rhain eu cadarnhau wrth ddilysu. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod rôl asesiad mewn

cefnogi dysgu ar ffurf polisi 'Asesu ar gyfer Dysgu' penodol ac mae'n hybu cysondeb mewn arferion asesu drwy dariff asesu.

2.28 Mae'r Brifysgol wedi cyfranogi mewn prosiect newid 'Academi Wyrdd' yr Academi Addysg Uwch ac mae'n hybu 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang' mewn cwricwla.

2.29 Mae'r broses o gymeradwyo cyrsiau ar gyfer darpariaeth o bell ar-lein yn gofyn ystyried deunyddiau cwrs, gwaith addysgu, cyfleusterau ac adnoddau, a chymorth i fyfyrwyr. Defnyddir amrywiaeth o dechnolegau dysgu ar-lein yn helaeth wrth ddarparu'r cyrsiau hyn ond gall hefyd gynnwys elfennau a ddarperir yn y Brifysgol. Mae'r Tîm Cefnogi Dysgu gyda Chymorth Technoleg yn darparu cymorth TG arbenigol ar gyfer dysgu cyfunol.

2.30 Mae'r Cynllun Academaidd yn cydnabod pwysigrwydd amgylcheddau dysgu sy'n gynhwysol ac yn hygyrch. Mae polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â myfyrwyr sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol wedi'u diffinio'n glir ac maent wedi'u bwriadu i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i'r holl fyfyrwyr gyrraedd eu potensial o ran dysgu. Mae arweiniad manwl am gynllunio cwricwla cynhwysol ar gael i dimau cwrs. Ar ddechrau bob blwyddyn, gwahoddir bob myfyriwr i lenwi ffurflen sy'n gofyn iddynt hysbysu eu Harweinydd Cynllun/Tiwtor am unrhyw nam neu salwch y maent yn teimlo allai fod yn berthnasol i'w cynnydd. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu bod Gwasanaethau Anabledd a Dyslecsia'r Brifysgol yn agored iawn ac yn gefnogol.

2.31 Mae'r 'Cynllun Pobl' yn ymrwymo'r Brifysgol i sicrhau bod yr holl staff sy'n cymryd rhan mewn dysgu ac addysgu wedi'u cymhwyso a'u cefnogi'n briodol. Mae gofyn i staff newydd gyflawni'r Dystysgrif Ôl-radd mewn Datblygu Arfer Proffesiynol mewn Addysg Uwch, sydd ar gael hefyd i staff mewn sefydliadau partner. Mae gofyn i staff sy'n addysgu cyrsiau'r Brifysgol mewn colegau partner gyflawni Statws Athro Cydnabyddedig. Mae CELT yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau a digwyddiadau hyfforddi i gefnogi datblygiad staff addysgu. Mae'r rhain ar gael hefyd i staff mewn colegau partner. Mae B11 yn ymdrin â chymorth i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu.

2.32 Caiff y dysgu a'r addysgu eu goruchwylio yn gyntaf gan Bwyllgorau Gwella Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau neu'r Coleg, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu, sydd yn ei dro'n adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Academaidd. Mae cylchoedd gorchwyl y grwpiau hyn wedi'u diffinio'n briodol, ac mae rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys myfyrwyr, wedi eu cynrychioli arnynt. Mae agendâu a chofnodion y pwyllgorau hyn yn dangos eu bod yn effeithiol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau.

2.33 Gall staff academaidd ddadansoddi a gwella eu harferion eu hunain drwy ddefnyddio dulliau o werthuso modiwlau gan fyfyrwyr, arsylwi addysgu gan gymheiriaid, a thrwy hunan-ystyried. Caiff canlyniadau'r AMC a'r cynlluniau gweithredu dilynol eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu. Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfranogi yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) er yn yr achos hwn mae'r gyfradd ymateb yn isel ac ni chaiff y canfyddiadau eu hadrodd fesul disgyblaeth. Caiff y dysgu a'r addysgu ym mhartneriaid y Brifysgol eu goruchwylio gan Swyddogion Cyswllt perthnasol y Brifysgol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Cyswllt y Partneriaid, a chânt eu monitro drwy'r broses fonitro flynyddol (gwelwch B8).

2.34 Mae myfyrwyr yn dweud bod amrywiaeth yng nghwmpas ac ansawdd yr wybodaeth yn ymwneud â'r dysgu a'r addysgu y maent yn ei derbyn mewn llawlyfrau ac ar wefan UniLife. Yn dilyn yr Adolygiad Amgylchedd Dysgu, mae'r Brifysgol yn mabwysiadu rhith-amgylchedd dysgu newydd fel elfen safonol o 2016-17 ymlaen, ac mae wedi cymryd camau i ddiffinio ei disgwyliadau yn nhermau lleiafswm maint yr wybodaeth y gall myfyriwr ddisgwyl ei chanfod yno. (Gwelwch Ddisgwyliad C hefyd.)

2.35 Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn ail alinio ei phortffolio academaidd er mwyn creu campysau o arbenigrwydd academaidd. Yn rhan o'r broses hon, mae adnoddau TG a llyfrgell, ac adnoddau ffisegol eraill i gefnogi dysgu ac addysgu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr is-grwpiau perthnasol i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr. Mae prosesau monitro blynyddol hefyd yn caniatáu asesiad i weld a yw'r ystafelloedd dysgu a'r adnoddau dysgu eraill yn ddigonol ac yn briodol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu ei Chynllun Academaidd, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn adnoddau a chyfleusterau arbenigol ar gyfer dysgu efelychol, ac mae wedi cyflwyno system gipio darlith sefydliadol, y mae'r ddau wedi eu croesawu gan y myfyrwyr.

2.36 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Brifysgol weledigaeth strategol glir ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfleoedd priodol gan bob myfyriwr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac i sicrhau bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cael ei fonitro a'i wella. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

Cod Ansawdd, *Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr*

Y canfyddiadau

2.37 Arweinir datblygiad a chyflawniad y myfyrwyr gan y Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Cefnogir hyn gan y strategaeth cyflogadwyedd, sef strategaeth i helpu myfyrwyr gyda gwasanaethau'n ymwneud â chyflogadwyedd, lles, gweinyddiaeth, llyfrgelloedd a nodweddion graddedigion, sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol.

2.38 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, swyddogion Undeb y Myfyrwyr, ac â staff uwch, staff academaidd a staff cymorth.

2.39 Mae'r Brifysgol yn dangos datblygiad ei hagwedd strategol tuag at gyflogadwyedd gyda 93.5 y cant o'r graddedigion yn cael swydd gyflogedig neu'n gwneud astudiaeth bellach o fewn chwe mis i raddio. Mae mwy na 300 o gyflogwyr yn cefnogi rhaglen ragweithiol o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â gyrfaoedd a chyflogadwyedd. Mae cynlluniau megis GradEdge, Rhwydwaith Bright Ideas, Network75 a gwobrau Gwneud i Fusnes Ddigwydd oll yn cyfrannu tuag at hynny, ac maent yn galluogi ac yn annog myfyrwyr i gyflawni eu potensial personol a phroffesiynol. Yn ogystal, cynigir cyngor gyrfaoedd personol drwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

2.40 Mae'r Grŵp Llwyddiant Myfyrwyr yn pennu strategaethau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar drosglwyddiad, cadwraeth, cynnydd a chyflawniad, ac yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Academaidd. Mae'r Grŵp Llwyddiant Myfyrwyr wedi canfod problemau sy'n ymwneud â chadwraeth sy'n anghyson ar draws y Brifysgol, a data nad yw'n ddibynadwy, am fod dyddiadau ymadael 'disgwyliedig' yn cael eu defnyddio wrth gau cofnodion myfyrwyr. Mewn ymateb i bryderon yn ymwneud â chadwraeth, mae ymgynghoriad gydag Undeb y Myfyrwyr wedi gweld yr Wythnos Profiad Cyntaf yn cael ei hail fodelu i greu'r Wythnos Groesawu newydd, gyda mwy o bwyslais ar y profiad academaidd. Mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â phroses ymsefydlu ar lefel cwrs i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddefnyddio data am gadwraeth, cynnydd a chyflawniad, ynghyd ag adborth gan Undeb y Myfyrwyr, i fonitro llwyddiant y mentrau hyn.

2.41 Caiff cadwraeth, cynnydd a chyflawniad oll eu monitro gan y Bwrdd Academaidd o dan ei strategaethau; mae hyn yn cynnwys defnyddio data o'r arolygon Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, AMC a PTES. Mae pryderon yn ymwneud â chlystyru asesiadau wedi derbyn sylw ar lefel rhai cyrsiau unigol, ond mae clystyru'n parhau'n bryder ehangach (gwelwch B6).

2.42 Mae UniLife, gwefan ganolog gyda gwybodaeth i fyfyrwyr, yn cynnig dolenni at amrywiaeth o wybodaeth i fyfyrwyr, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr, Caplaniaeth, Gwasanaethau Cwnsela, Cyngor Anabledd, Siarter y Myfyrwyr, dyddiadau'r tymor ac amserlenni, a gwasanaethau llyfrgell, a thrwy hynny maent yn galluogi myfyrwyr i gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth angenrheidiol. Mae datblygu ap symudol UniLife yn ddatblygiad positif. Mae'r wefan Gwrando Arnoch Chi yn cynnig cyfle i fyfyrwyr roi adborth, ac mae hyn wedi'i gefnogi drwy'r ymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

2.43 Mae'r Brifysgol wedi tynnu ei harbenigedd mewn arweinyddiaeth lywodraethol, trafnidiaeth, polisi iechyd a gofal cymdeithasol, twf economaidd a sgiliau'r dyfodol, troseddeg a gwyddorau'r heddlu, ac adfywio, oll ynghyd yn y Ganolfan Uwchefrydiau Polisi Cyhoeddus,

er mwyn cyflawni ei nod o fod yn ganolfan flaenllaw ar gyfer polisi cyhoeddus yn y DU. Yn y ffordd yma mae hefyd yn ceisio helpu i wneud iawn am y bwlch mewn sgiliau ledled y wlad a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen 'Er Mwyn ein Dyfodol'. Mae darpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith yn cynnwys lleoliadau i fyfyrwyr, cyfleoedd ymchwil, ac ystod o adnoddau a chyfleusterau technegol a phroffesiynol i gefnogi dysgu.

2.44 Mae'r Brifysgol wedi dangos y gallu i weithredu'n uniongyrchol wrth wynebu problemau sy'n effeithio ar fyfyrwyr: er enghraifft, pan fydd rhai myfyrwyr mewn maes sy'n gysylltiedig ag iechyd yn wynebu problemau mewn perthynas â gofynion am achrediad proffesiynol, gweithiodd y Brifysgol gyda'r myfyrwyr a thîm y cwrs i adolygu'r cwrs fel bod ei gynnwys yn cwrdd â gofynion y corff proffesiynol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol ar gael. Er nad oedd y sefyllfa hon yn ddymunol, mae'r Brifysgol wedi dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol, academaidd a phroffesiynol y myfyrwyr.

2.45 Mae'r Brifysgol yn dangos ymrwymiad strategol i ddatblygu gyrfaoedd myfyrwyr drwy ddarparu lleoliadau gwaith diwydiannol ac ymchwil, a thrwy ddatblygu cyrsiau. Mae'n gweithio gydag amrywiaeth o gwmnïau a sefydliadau uchel eu proffil sy'n cynnwys Rolls-Royce, Microsoft, Tata Steel, y BBC, Airbus, Sony, a General Electric. Mae wedi datblygu partneriaeth ar gyfer peirianneg awyrennau gyda British Airways, gyda chymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer y diwydiant o dan drwydded British Airways gan yr Awdurdod Hedfan Sifil. Mae partneriaeth rhwng pedwar cwmni mawr y sector gwasanaethau ariannol wedi peri cyflwyno MSc mewn Gwasanaethau Ariannol, sy'n cyfuno profiad gwaith gydag astudio rhan amser. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cefnogi creu 52 o fusnesau graddedigion newydd i ddechrau yn 2013-14 (o gymharu â 42 yn y flwyddyn flaenorol), ac mae'n nodi bod 106 o fusnesau graddedigion newydd i ddechrau yn dal i fod yn weithredol ar ôl tair blynedd.

2.46 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo fwy a mwy i Ddysgu Seiliedig ar Waith yng nghyd-destun ei Glasbrint Academaidd, oedd yn dal i gael ei ddatblygu ar amser yr ymweliad adolygu. Mae polisi Dysgu Seiliedig ar Waith yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n ymwneud â'r maes yma, gan gynnwys partneriaid allanol, gyda'r nod o sicrhau bod cyfadrannau a thimau cwrs yn gallu darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o safon uchel. Mae'r Glasbrint Academaidd yn rhagweld y bydd pob myfyriwr israddedig yn cymryd rhan mewn o leiaf 70 o oriau o brofiad gwaith perthnasol (neu gyfatebol) yn y dyfodol, yn ystod eu cyrsiau gradd. Mae gwasanaethau cymorth wedi dechrau mabwysiadu'r uchelgais yma'n barod. Mae'r Glasbrint Academaidd hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau defnyddio llyfrgell a chyflwyno i adnoddau llyfrgell, sgiliau nodi cyfeiriadau a defnyddio technoleg mewn dysgu. Dan y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd, mae canllaw i gyflogwyr wedi cael ei ddatblygu fel bod modd i'r Brifysgol helpu cyflogwyr i recriwtio graddedigion a darparu profiad gwaith priodol. Mae cynllun High Flyers yn darparu profiad gwaith â thal am 40 wythnos i raddedigion, ynghyd â rhaglen datblygiad.

2.47 Mae CBCDC mewn sefyllfa dda iawn i symud agenda cyflogadwyedd y Cynllun Academaidd yn ei flaen. Mae pob un o'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd galwedigaethol. Er enghraifft, mae actorion yn creu cwmni theatr yn rhan o gynhyrchiad eu blwyddyn derfynol, ac mae cerddorion yn cymryd rhan mewn cerddorfeydd.

2.48 Mae CELT yn cynnig seminarau i gefnogi a datblygu ymgysylltiad y staff â'r themâu 'myfyrwyr fel partneriaid', 'myfyrwyr yn gyfryngau newid' a 'myfyrwyr fel cyd-ddatblygwyr' yn rhan o fenter Cyfeiriadau'r Dyfodol yr Academi Addysg Uwch (AAU). Mewn rhai achosion, mae'r myfyrwyr eu hunain wedi darparu seminarau i staff.

2.49 Ar sail yr holl dystiolaeth hon, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

Cod Ansawdd, *Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr*

Y canfyddiadau

2.50 Mae agwedd y Brifysgol tuag at ymgysylltiad â'r myfyrwyr wedi'i amlygu yn ei Gweledigaeth a'i Chenhadaeth, ac yn y Cynllun Academaidd. Cynrychiolir y myfyrwyr ar y Bwrdd Llywodraethwyr, ar y Bwrdd Academaidd, ac ar y mwyafrif o'r pwyllgorau, gan gynnwys y rheiny ar lefelau cyfadran a chwrs. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn eistedd ar y Bwrdd Academaidd. Caiff materion myfyrwyr eu blaenoriaethu fel yr eitem gyntaf ar agenda'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu. Mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gyda swyddogion a staff Undeb y Myfyrwyr, ac mae cyfarfodydd misol rhwng swyddogion Undeb y Myfyrwyr a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd). Gall swyddogion Undeb y Myfyrwyr gael gafael yn anffurfiol â'r staff uwch yn rheolaidd. Mae gan CBCDC ei Lywydd Undeb y Myfyrwyr ei hun sy'n eistedd ar ei fyrddau academaidd a llywodraethu, ac sy'n mynychu Grŵp Datblygu'r Pennaeth. Mae'r Brifysgol yn casglu adborth gan fyfyrwyr drwy arolygon holiaduron cwrs a modiwl, ac mae'n defnyddio data o'r AMC.

2.51 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

2.52 Mae'r Brifysgol yn ceisio rhagor o ymgysylltiad â'r myfyrwyr ar gyfer prosiectau arbennig, megis y broses barhaus o ail alinio'r campysau, gan gynnwys myfyrwyr ar y Bwrdd Rheoli Prosiect, ac ar is-bwyllgorau ei thri champws. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd llais y myfyrwyr yn y materion hyn, yn arbennig mewn perthynas â materion ariannol a llety, ac â phenderfyniadau o ran trosglwyddo myfyrwyr rhwng safleoedd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi'r math yma o ymgysylltiad.

2.53 Mae gan y Brifysgol Siarter y Myfyrwyr nodweddiadol sydd wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr a'i hysbysebu'n eang ar byrth gwybodaeth i fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd wedi creu Cytundeb Cydberthynas ag Undeb y Myfyrwyr. Caiff y Cytundeb Cydberthynas ei adolygu bob blwyddyn gan grŵp sy'n cynnwys swyddogion Undeb y Myfyrwyr, staff academaidd a staff cymorth. Mae'n nodi'r egwyddorion ar gyfer gwella profiad y myfyrwyr, diogelu a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr, ac ar gyfer hybu cynnwys llais y myfyrwyr ymhob gweithgaredd mewn modd ystyrlon. Mae'r Cytundeb yn sicrhau bod y Brifysgol yn darparu hyfforddiant, mentora a chefnogaeth un-i-un, sy'n briodol er mwyn galluogi pob math o gynrychiolwyr myfyrwyr i ymgysylltu'n effeithiol. Mae'r Cytundeb yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac mae'n debygol o gael ei newid am Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2015-16. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn ymdrechu i sicrhau bod mecanweithiau cynrychioli'n fwy eglur, drwy sicrhau bod cofnodion y Grŵp Cyswllt Myfyrwyr-Staff Cwrs ar gael i'r holl fyfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.54 Hysbysir myfyrwyr am ymatebion i'w hadborth drwy ymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Mae'r wefan Gwrando Arnoch Chi yn amlinellu ffyrdd y gall myfyrwyr roi adborth, gan hysbysu myfyrwyr ar yr un pryd am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth. Mae pob myfyriwr yn cael mynediad at y tudalennau ar gyfer cynrychiolwyr cwrs a Chynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr ar wefan Undeb y Myfyrwyr.

2.55 Mae'r Brifysgol yn cyfranogi ym Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (MYMC), sy'n cefnogi myfyrwyr i ymgysylltu fel cyfranogwyr gweithredol yn y gwaith o arwain, rheoli, datblygu a darparu eu profiad addysgol eu hunain. Mae'r Brifysgol wedi cynnwys Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr fel aelod o'r Prosiect Cadwraeth a Llwyddiant Myfyrwyr, o'r camau cynllunio cynnar a thrwy gydol dwy flynedd gyntaf y prosiect, a oedd yn cynnwys seminarau datblygiad staff wedi'u harwain gan fyfyrwyr. Canfu'r tîm adolygu esiamplau o welliannau sylweddol yng nghadwraeth y myfyrwyr ar rai cyrsiau.

2.56 Yn ogystal â swyddogion sabothol a chynrychiolwyr cwrs Undeb y Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi cryfhau ymgysylltiad â'r myfyrwyr drwy weithredu'r cynllun Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr. Mae'r cynllun yn darparu hyfforddiant ar gyfer rôl Cynrychiolydd Llais y Myfyrwyr, sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion academaidd a pholisi. I annog cyfranogaeth, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno cronfa ysgoloriaeth ar gyfer Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith, ac mae'r cynllun GradEdge yn cydnabod y sgiliau sy'n gysylltiedig â'u gwaith a ddysgodd drwy gyfranogi fel Cynrychiolydd Llais y Myfyrwyr. Mae cynrychiolwyr cwrs a Chynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr yn derbyn llawlyfr, ac yn cael cefnogaeth gan yr Uwch Swyddog Prosiect, sy'n gyfrifol hefyd am fonitro effeithiolrwydd y cynllun. Mae'r cynllun Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr wedi cefnogi myfyrwyr i gyfranogi yn y broses o gymeradwyo cyrsiau.

2.57 Mewn ymateb i adborth siomedig yn yr AMC, bu'r Brifysgol yn gweithio gydag ymgynghorydd allanol i gynhyrchu Adroddiad am Adborth gan y Myfyrwyr a Chynrychiolaeth y Myfyrwyr. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â lefelau isel o adborth gan fyfyrwyr (gan nodi nad yw rhai myfyrwyr yn cwblhau gwerthusiadau cwrs drwy gydol eu hastudiaethau israddedig) a'r ffaith fod platfformau adborth ar-lein yn aneffeithiol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r defnydd positif a wneir o sianelau anffurfiol i roi adborth. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn ystyried cynigion cychwynnol yr adroddiad, gan ganolbwyntio ar ail ddiffinio'r berthynas rhwng cynrychiolwyr cwrs a Chynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr, ar wella'r defnydd a wneir o werthusiadau cwrs a modiwl, ac ar egluro rolau'r byrddau cwrs a rolau'r grwpiau ymgynghorol myfyrwyr-staff ymhellach. Mae Undeb y Myfyrwyr yn croesawu ymrwymiad y Brifysgol i ymgysylltu â'r myfyrwyr, gan gydnabod bod rôl Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr wedi'i chryfhau drwy hyfforddiant mwy ffurfiol mewn mecanweithiau sicrhau ansawdd, a bod trafodaethau wedi'u cychwyn ar lefel uwch am wella rôl y cynrychiolwyr cwrs. Ar amser yr ymweliad adolygu, roedd rhywfaint o drafodaeth am drosglwyddo cyfrifoldeb am Gynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr o'r Brifysgol i Undeb y Myfyrwyr.

2.58 Hyd ddiwedd sesiwn 2013-14, roedd gan bob cyfadran Gynrychiolydd Llais y Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig oedd yn eistedd ar ei His-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil. Yn dilyn adolygiad gan y Grŵp Gweithredol, rhoddwyd y gorau i'r rôl yma. I gymryd lle'r Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr hyn, ceisiodd y Brifysgol wirfoddolwyr ar draws ei chymuned myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014-15. Yn dilyn proses ddethol a chyfweld a weithredwyd gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion, detholwyd tri chynrychiolydd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, un myfyriwr llawn amser o'r Gyfadran Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth, a dau fyfyriwr rhan amser o'r Gyfadran Busnes a Chymdeithas. Ni dderbyniodd y myfyrwyr hyn sy'n gynrychiolwyr unrhyw hyfforddiant. Sefydlwyd grwpiau ebost i roi cyfle i'r myfyrwyr hyn sy'n gynrychiolwyr gasglu barn eu hetholaethau, ac i ymgysylltu â nhw. Fodd bynnag, nid oes gan fyfyrwyr yng Nghyfadran y Diwydiannau Creadigol ac yng Nghyfadran y Gwyddorau Bywyd ac Addysg unrhyw gynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil bellach. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod mecanweithiau cynrychioli priodol ac effeithiol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

2.59 Ym mhartneriaethau cydweithredol y Brifysgol, mae cynrychiolaeth y myfyrwyr yn fater i'r coleg neu i'r sefydliad, gyda hyfforddiant a chysylltiadau allweddol sydd wedi eu seilio yn y colegau. Os bydd problemau mewn perthynas â'r Brifysgol, mae gan gynrychiolwyr cwrs o golegau partner fynediad at wasanaethau cynghori, adnoddau a chyfleusterau'r Brifysgol.

Gall cynrychiolwyr y myfyrwyr partneriaeth hefyd gael gafael ar adnoddau a chymorth i Gynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr yn y Brifysgol. Clywodd y tîm adolygu bod myfyrwyr mewn partneriaethau gyda cholegau addysg bellach lleol, yn gallu cael gafael ar adnoddau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'u defnyddio, er mai'r prif atyniad mae'n ymddangos yw mynediad at adnoddau ffisegol yn hytrach na gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hybu llais y myfyrwyr.

2.60 Er gwaethaf y problemau'n ymwneud â chynrychiolaeth myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n derbyn sylw uchod, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni'n gyffredinol, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

Cod Ansawdd, *Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol*

Y canfyddiadau

2.61 Mae prosesau asesu'r Brifysgol wedi'u halinio ag ystod o strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sy'n tanategu'r gwaith o asesu myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n darparu'r fframwaith ar gyfer arferion asesu blaengar ac effeithiol ar bob lefel yn unol â'r Cod Ansawdd. Cefnogir hyn gan Bolisi Asesu ar gyfer Dysgu a Thariff Asesu sy'n darparu arweiniad am asesu i staff a myfyrwyr, yn hybu integreiddio datblygiad sgiliau dysgu a sgiliau academaidd mewn gwahanol dasgau asesu, ac yn pennu'r fframwaith ar gyfer graddio asesiadau. Dylai mabwysiadu'r Glasbrint Academaidd newydd ddarparu fframwaith mwy rhagnodol ac eglur ar gyfer cynllunio ac asesu cyrsiau.

2.62 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

2.63 Mae gwefan CELT yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff academaidd sy'n ceisio defnyddio dulliau asesu gyda chymorth technoleg. Mae arferion marcio gan gymheiriaid rhwng myfyrwyr fel mecanwaith i roi adborth ffurfiannol, a dulliau electronig o gyflwyno a marcio asesiadau, ac o roi adborth arnynt, yn cael eu defnyddio'n gynyddol mewn modiwlau a chyrsiau ar draws y Brifysgol. Mae datblygiad tasgau asesu sydd wedi'u cysylltu'n agosach â phrofiadau galwedigaethol a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn ehangu ar draws y Brifysgol ac wedi'u canmol gan rai arholwyr allanol.

2.64 Mae'r broses ddilysu'n pennu maint a natur y galwadau asesu mewn cyrsiau. Mae'r Tariff Asesu sydd ychydig yn hen ffasiwn yn cynnig arweiniad defnyddiol i staff academaidd ar faint y galwadau asesu, a'u hamserlennu, mewn modiwlau a chyrsiau. Nid yw'r arweiniad hwn wedi'i atgyfnerthu yng Nghanllaw i Ddatblygwyr Cwrs neu Ganllaw Dylunio Cwricwlwm y Brifysgol. Dylai gweithredu'r Glasbrint Academaidd yn 2015-16 atgyfnerthu natur a maint y gofynion asesu mewn modiwlau ac atgyfnerthu cydraddoldeb y galwadau asesu ar fyfyrwyr.

2.65 Mynegodd Cyflwyniad y Myfyrwyr bryder ynglŷn â 'chlystyru asesiadau' tua diwedd sesiynau academaidd. Mae pwysigrwydd Dyddiaduron Asesu'n cael ei atgyfnerthu ar draws y Brifysgol i hybu arferion mwy cyson a sicr ar gyfer cynllunio galwadau asesu gan staff a myfyrwyr, ac i osgoi gormod o asesiadau ar gyfnodau arbennig yn y calendr academaidd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y defnydd gweddol wael a wna o'i chynllun Dyddiadur Asesu ar draws y cyfadrannau ac mae'n ceisio rhoi rhagor o arweiniad i staff academaidd ar faint priodol yr asesiadau, a sut i'w hamserlennu'n briodol, mewn modiwlau a chyrsiau. Roedd trafodaethau gyda myfyrwyr a staff academaidd yn cadarnhau effaith gyfyngedig Dyddiaduron Asesu ar 'glystyru asesiadau' a phennwyd esiamplau o rai elfennau asesu sy'n wynebu newid byr rybudd mewn dyddiadau cyflwyno. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau mwy o gysondeb yn y maes yma, ond roedd hefyd yn nodi bod cynnydd wedi digwydd yn y cyfeiriad hwnnw (gwelwch uchod). Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r mecanweithiau systematig sy'n cael eu datblygu i wella prydlondeb a natur yr adborth o asesiadau ar draws holl ddarpariaeth y Brifysgol.

2.66 Mae Cyflwyniad y Myfyrwyr, yr AMC, a'r PTES yn 2014 wedi nodi bod anghysonderau ym mhrydlondeb ac ansawdd yr adborth o asesiadau i fyfyrwyr wedi bod yn bryder sy'n ailadrodd yn y Brifysgol (ac yn ei sefydliadau blaenorol). Mae'r Brifysgol wedi cydnabod y pryder yma, ac yn arbennig wendidau wrth roi adborth o asesiadau i fyfyrwyr o fewn y cyfnod gweithredu penodol o 20 diwrnod. Cymerir camau i wella'r amser cwblhau ar gyfer dychwelyd adborth o asesiadau, ac i hybu mwy o gysondeb yn natur a maint yr adborth. Ochr yn ochr â gwell hyrwyddiad i Ddyddiaduron Asesu, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu Daflen Flaen Asesiad ac Adborth i'r Brifysgol gyfan ym mis Medi 2014, a luniwyd i hybu mwy o gysondeb mewn diffinio asesiadau, ac mewn rhoi sylwadau arnynt, a bydd y defnydd a wneir ohoni'n cael ei werthuso ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2014-15. Fodd bynnag, mae myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig wedi dweud bod prydlondeb yr adborth o asesiadau wedi parhau'n broblem ar draws y Brifysgol.

2.67 Yr Arweinwyr Cwrs a'r Penaethiaid Ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau prydlondeb yr adborth o asesiadau. Ond, yn dilyn trafodaeth gyda staff a myfyrwyr, ni allai'r tîm adolygu ganfod tystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol yn olrhain a monitro'n systematig ac yn rheolaidd brydlondeb a natur yr adborth o asesiadau. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn gwneud defnydd mwy systematig ac effeithiol, ar lefel ysgol ac yn uwch, o brosesau academaidd a gweithdrefnau monitro'r Brifysgol er mwyn sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn cael eu gweithredu'n gyson.

2.68 I wneud yr argymhelliad yma roedd y tîm adolygu'n ymwybodol o anghysonderau ac amrywiadau eraill nad oeddent wedi eu pennu a/neu eu trin yn effeithiol, gan reolwyr ar lefel ysgol, cyfadran a sefydliad, trwy brosesau academaidd a phrosesau monitro'r Brifysgol. Er enghraifft, yn yr adran yma mae pryderon am glystyru asesiadau; anghysonderau mewn prosesau marcio a safoni mewnol; ac ansicrwydd ynglŷn â mabwysiadu taflenni blaen ar gyfer asesiadau. Hefyd, roedd y tîm o'r farn y byddai problemau eraill yn ymwneud ag anghysondeb sy'n derbyn sylw mewn argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu trin yn fwy effeithiol efallai os byddai prosesau academaidd a gweithdrefnau monitro'r Brifysgol wedi cael eu cymhwyso'n fwy systematig, yn arbennig mewn cyfnod o drawsnewid a newidiadau sefydliadol.

2.69 Mae'r gweithdrefnau arholi'n gyson gydag arferion ar draws y sector, ac mae'r Brifysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd cymhwysiad gweithdrefnau'n gyson mewn sefydliadau partner. Mae'r Uned Asesu a Dyfarnu'n cefnogi cyfadrannau i sicrhau rheolaeth yr asesiadau, a darperir hyfforddiant i oruchwylwyr o fewn y Brifysgol ac mewn sefydliadau partner cydweithredol. Mae'r Brifysgol yn cryfhau cyfathrebiad gyda cholegau partner i atgyfnerthu ei reolaeth ar weinyddu asesiadau. Mae holl staff y Brifysgol a'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn rheoli asesiadau mewn sefydliadau partner yn derbyn cyflwyniad i'r gofynion ynglŷn â Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

2.70 Sicrheir fod samplau o'r holl waith a aseswyd, gan gynnwys hwnnw a gwblhawyd mewn sefydliadau partner cydweithredol ac i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar gael i gael eu craffu gan arholwyr allanol sy'n arbenigwyr annibynnol, a gallai'r rhain gynnwys ymarferwyr sydd â'r cymwysterau priodol lle mae gallu proffesiynol myfyrwyr yn cael ei archwilio. (Gwelwch hefyd B7.)

2.71 Rheolir y broses o farcio a safoni asesiadau'r myfyrwyr yn fewnol gan reoliadau'r Brifysgol ar gyfer cyrsiau a addysgir, a dilynir gweithdrefnau cyfatebol i fyfyrwyr sy'n parhau'n atebol i reoliadau'r sefydliadau blaenorol nes eu bod yn cwblhau eu cyrsiau. Nid yw'r Brifysgol yn rhoi arweiniad diffiniol i staff academaidd ar y sampl priodol o asesiadau myfyrwyr sy'n ofynnol i wneud gwaith effeithiol o safoni elfennau asesu mewn modiwlau'n fewnol. Roedd archwiliad o weithdrefnau samplu a safoni mewnol gyda staff y Brifysgol yn cadarnhau arferion newidiol. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen i wella ei phrosesau samplu a safoni, ac yn gwneud mwy o ddefnydd o'i gweithdrefnau monitro cysylltiedig (gwelwch baragraff 2.71), ac mae'n sicr y bydd eisiau hyrwyddo hyn.

2.72 Mae arholwyr allanol wedi cwestiynu eglurder a chysondeb arferion marcio a safoni mewnol yn y Brifysgol ac mewn rhai colegau addysg bellach partner. Dywedwyd bod y prosesau dilynol o safoni a gwirio gwaith myfyrwyr gan staff y Brifysgol yn gadarn ac yn effeithiol. Mae'r Brifysgol yn rhoi rhagor o hyfforddiant ac arweiniad i golegau addysg bellach partner ac, o drafodaethau'r tîm adolygu gyda staff academaidd a phartneriaid rhyngwladol, roedd hi'n amlwg bod gan y Brifysgol rai arferion safoni rhagorol. (Gwelwch hefyd B7, B10.)

2.73 Mae Byrddau Asesu Pwnc a Byrddau Asesu Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol yn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb y gweithdrefnau asesu a'u canlyniadau. Mae'r system ddwy haen hon wedi'i threfnu bob yn gampws, ac mae hon wedi creu rhai anawsterau ar gyfer y cyrsiau a ddarperir ar draws dau gampws neu fwy. Mae'r Brifysgol yn adolygu'r trefniant strwythurol hwn ac hefyd yn ceisio gwella'r defnydd a wneir o ddata cymharol wrth adolygu proffiliau asesu'r myfyrwyr a'r cyrsiau. Drwy ei gweithdrefnau monitro blynyddol ac o adroddiadau arholwyr allanol, mae'r Brifysgol wedi canfod rhywfaint o anghysondeb yn y ffordd y rheolir Byrddau Asesu Pwnc. Darparwyd rhagor o hyfforddiant ac arweiniad er mwyn gwella cysondeb / gostwng amrywiaeth yn y ffordd y rheolir ac y gweinyddir gweithrediad Byrddau Asesu ar draws y Brifysgol.

2.74 Sicrheir bod gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n ceisio cydnabyddiaeth o'u dysgu blaenorol ar gael ar wefan y Brifysgol. Ar ôl cyfranogi mewn prosiect rhanbarthol ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol mae'r Brifysgol wedi cynnwys gweithgareddau cydnabod dysgu blaenorol ar draws bob cyfadran sy'n darparu arweiniad a hyfforddiant i staff academaidd a staff cymorth ar gydnabod dysgu blaenorol ar gyfer mynediad, eithrio ac achredu yn unol â chanllawiau Ewropeaidd a chanllawiau'r AAU. Mae arweiniad ynglŷn â chydnabod dysgu blaenorol ar gael i fyfyrwyr a chyflogwyr drwy'r fframwaith ar gyfer Dysgu drwy Gyflogaeth, sydd newydd gael ei fabwysiadu gan y Brifysgol, ac mewn Canllawiau Rhagarweiniol. Mae gwefan CELT yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gyflogwyr ynglŷn â chydnabod dysgu blaenorol. Mae'r Brifysgol wedi ymdrin â materion cydnabod dysgu blaenorol yn effeithiol wrth ddatblygu ei darpariaeth academaidd gyda chyflogwyr sector cyhoeddus yn y byd milwrol, llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd. Canfu'r tîm adolygu bod yr arweiniad hygyrch o safon uchel a gyda ffocws a ddarperir i gyflogwyr ac ymgeiswyr ynglŷn â chydnabod dysgu blaenorol yn **arfer da**.

2.75 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn gweithredu prosesau asesu sy'n sicr, cyfiawn a dilys. Mae'r Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y gwaith o ddatblygu a gweithredu canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol yn ganmoladwy. Roedd llai o sicrwydd ymysg y tîm ynglŷn â gwaith monitro'r Brifysgol am faint yr adborth o asesiadau a ddarperir i fyfyrwyr. Yn ogystal, roedd y prosesau samplu a safoni mewnol yn anghyson ac aneglur. Ymhob un o'r ddwy agwedd yma o'r ddarpariaeth, mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen i wella'r prosesau asesu sylfaenol a'r gweithdrefnau monitro cysylltiedig. O ganlyniad, er bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, mae risg canolig yn parhau i safonau ac ansawdd prosesau asesu.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

Cod Ansawdd, *Pennod B7: Arholi Allanol*

Y canfyddiadau

2.76 Mae'r Fframwaith yn diffinio rolau a chyfrifoldebau arholwyr allanol yn unol â'r Cod Ansawdd. Ategir hyn gan Lawlyfr y Brifysgol i Arholwyr Allanol ac arweiniad penodol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol.

2.77 Mae gan y Bwrdd Academaidd gyfrifoldeb sefydliadol am benodi arholwyr allanol. Mae Panel Cymeradwyo Arholwyr Allanol yn ystyried enwebiadau cychwynnol ar gyfer penodi ar gyrsiau dyfarniad a addysgir, ac mae'r Is-Bwyllgor Rhaglenni Ymchwil yn ymdrin ag enwebiadau ar gyfer dyfarniadau gradd ymchwil. Mae enwebiadau ar gyfer arholwyr allanol sydd wedi'u cefnogi'n symud ymlaen i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd i'w hystyried cyn y bo'r Bwrdd Academaidd yn rhoi cymeradwyaeth derfynol a chytundeb ar unrhyw ofynion hyfforddi neu gymorth. Lle gall fod yn anodd penodi arholwyr allanol sydd â'r profiad priodol, defnyddir cynllun mentora i gefnogi'r rheiny sy'n llai profiadol. Cyflwynwyd Llawlyfr i Fentoriaid diwygiedig ar gyfer 2014-15. Cynhaliwyd adolygiad o'r Panel Cymeradwyo Arholwyr Allanol yn 2014-15 i sicrhau bod aelodaeth y Panel yn ddigonol a bod y broses benodi ar gyfer arholwyr allanol yn wydn.

2.78 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

2.79 Yn unol â chanllawiau ASA, pan fydd modiwlau'n cael eu haddysgu mewn iaith heblaw Saesneg, neu pan fydd myfyrwyr yn dymuno cyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg, penodir arholwyr allanol Cymraeg eu hiaith sydd â'r cymwysterau priodol, lle bo'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, cyfieithir gwaith myfyrwyr i'r Saesneg neu rhoddir cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol i'r arholwr.

2.80 Creffir ar adroddiadau'r arholwyr allanol gan uwch aelod o'r Gwasanaeth Ansawdd a Safonau Academaidd, a gan y Penaethiaid Ysgol a'r Arweinwyr Cwrs perthnasol ar draws holl ddarpariaeth y Brifysgol, gan gynnwys partneriaethau cydweithredol. Ymdrinnir ag adroddiadau nad ydynt yn hollol gyflawn neu gywir gan y Gwasanaeth Ansawdd a Safonau Academaidd, a'r Uned Ansawdd Cydweithredol ar gyfer partneriaid cydweithredol, a chyflwynir adroddiad cryno cyfunol i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd ac i'r Bwrdd Academaidd i'w hystyried. Mae templed diwygiedig ar gyfer Adroddiadau Arholwyr Allanol wedi'i lunio i wahaniaethu rhwng y prosesau craffu allanol ar gyfer myfyrwyr yn y Brifysgol ac ar gyfer myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen am wahaniaethu'n fwy eglur rhwng carfannau o fyfyrwyr i wella gwerthusiad cymharol a bydd y broses hon wedi'i chefnogi gan y defnydd cynyddol o ddulliau cyflwyno electronig drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Pan fydd gan arholwyr allanol bryderon difrifol am safonau academaidd, gellir hefyd anfon adroddiad cyfrinachol at yr Is-Ganghellor (gwelwch hefyd A2.2, A3.2). Cyflwynir/darperir Adolygiadau Modiwl Cryno i arholwyr allanol yn ystod eu presenoldeb ar Fyrddau Asesu Pwnc.

2.81 Mae'r Brifysgol yn adolygu adroddiadau ei harholwyr allanol, ar gyfer darpariaeth 'cartref' a darpariaeth gydweithredol, i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau'r arholwyr yn cael eu hystyried o fewn y broses fonitro flynyddol. Mae'r adolygiadau hyn yn casglu themâu cyffredin a materion arwyddocaol sydd angen eu datrys. Nid yw'n eglur bob amser sut mae argymhellion a chamau gweithredu dilynol yn cael eu gweithredu a'u monitro: mae rhai themâu (er enghraifft, prydlondeb adborth o asesiadau, safoni, llwyth gwaith arholwyr allanol) yn ailadrodd mewn adroddiadau blynyddol heb unrhyw

ateb corfforaethol amlwg. Mae'r cyfathrebu gydag arholwyr allanol wedi gwella'n ddiweddar, er bod y Brifysgol yn dal i gael rhywfaint o anhawster mewn sicrhau cyflwyniad prydlon adroddiadau arholwyr allanol.

2.82 Mynegodd nifer o arholwyr allanol bryderon am eu llwyth gwaith. Nid yw'r Brifysgol yn darparu arweiniad diffiniol ar nifer yr elfennau asesu sy'n cael eu craffu gan arholwyr allanol i sicrhau bod archwiliad o safonau academaidd yn gyfiawn ac yn gymaradwy. Mae'r gwaith o archwilio llwyth gwaith arholwyr allanol wedi ei gwblhau'n ddiweddar gan y Panel Cymeradwyo Arholwyr Allanol ac argymhellwyd arweiniad mwy diffiniol i'w weithredu yn 2015-16. I ateb gofynion portffolio academaidd y Brifysgol sy'n datblygu, bydd penodi arholwyr allanol newydd yn cefnogi a gwella ymgysylltiad y Brifysgol gyda phartneriaid cydweithredol a datblygiad gweithgareddau asesu sy'n gysylltiedig â gwaith o fewn ei phortffolio academaidd. Wrth adolygu adroddiadau'r arholwyr allanol, ac mewn trafodaethau gyda staff uwch, canfu'r tîm bod diffiniad y Brifysgol o gymaroldeb llwyth gwaith arholwyr allanol a'u gwaith samplu a safoni ar gyfer 2014-15 yn parhau'n ansicr. Er gwaethaf y gwahaniaeth yma mewn llwyth gwaith arholwyr allanol nid oes tystiolaeth o'u hadroddiadau blynyddol i awgrymu na chafwyd unrhyw effaith niweidiol ar sicrwydd safonau academaidd.

2.83 Mae rhai anghysonderau a diffyg eglurder yn nhrefnau ail farcio a safoni'r Brifysgol wedi'u pennu yn adroddiadau'r arholwyr allanol, yn arbennig mewn partneriaethau gyda cholegau addysg bellach (gwelwch B6). Dywedwyd bod y prosesau dilynol o safoni a gwirio gwaith myfyrwyr gan staff y Brifysgol yn gadarn ac yn effeithiol. Roedd hi'n amlwg bod gan y Brifysgol rai arferion safoni rhagorol yn dilyn trafodaethau'r tîm adolygu gyda staff academaidd y Brifysgol a'i phartneriaid addysg bellach a rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn rhoi rhagor o hyfforddiant ac arweiniad am safoni i golegau addysg bellach partner. (Gwelwch Ddisgwyliad B10 hefyd.)

2.84 Dylai'r cynrychiolwyr myfyrwyr allu cael gafael yn ffurfiol ar grynodebau o adroddiadau'r arholwyr allanol drwy eu presenoldeb ar Fyrddau Cwrs. Soniodd myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir am ymgysylltiad minimol gydag adroddiadau'r arholwyr allanol. Cydnabu staff y Brifysgol bod angen atgyfnerthu mynediad y myfyrwyr at adroddiadau'r arholwyr allanol. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr yn rheolaidd ac yn eglur.

2.85 Canfu'r tîm adolygu rywfaint o ansicrwydd hefyd ynglŷn â sut roedd myfyrwyr yn dod yn ymwybodol o ymatebion neu gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adroddiadau arholwyr allanol. Mae'r Brifysgol wedi dweud ei bod yn ceisio hybu mwy o gysondeb a chymaroldeb yn ei gweithdrefnau ar gyfer llunio cynlluniau gweithredu blynyddol ar draws cyfadrannau ac ysgolion i sicrhau bod ymatebion i adroddiadau arholwyr allanol yn brydlon, ac yn hygyrch i fyfyrwyr yn rheolaidd.

2.86 Canfu'r tîm adolygu bod y ffordd y mae'r Brifysgol yn penodi a chefnogi arholwyr allanol, ac yn ymgysylltu â nhw, yn ddibynadwy ar y cyfan. Mae problemau sy'n ymwneud â chymaroldeb llwyth gwaith arholwyr allanol a'u gwaith samplu a safoni'n derbyn sylw. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen cryfhau cysondeb mynediad y myfyrwyr at adroddiadau'r arholwyr allanol. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

Cod Ansawdd, *Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni*

Y canfyddiadau

2.87 Mae'r Brifysgol yn nodi bod proses fonitro flynyddol ar waith i sicrhau y cedwir safonau a bod gwelliant parhaus mewn cyrsiau. Y gofyniad cychwynnol yw bod y broses fonitro flynyddol yn rhan annatod o fodel sicrhau a gwella ansawdd y cyfadrannau neu CBCDC ac y dylid edrych arni fel proses barhaus a systematig sy'n gweithredu mewn cylch blynyddol.

2.88 Gweithredir y broses fonitro flynyddol ar bum lefel rhyngberthynol: modiwl, cwrs, ysgol, cyfadran/coleg, a Phrifysgol, a nodir y porthor, y gweithgareddau a'r porth yn y gweithdrefnau. Ar ôl cwblhau modiwl, mae gofyn i arweinydd y modiwl gynhyrchu adroddiad drafft, gan ddefnyddio cyfres ddata a thempled safonol sy'n ymdrin â sylwadau'r arholwyr allanol, adborth am y modiwl gan fyfyrwyr, adborth gan gyflogwyr (lle bo ar gael) a pherfformiad y myfyrwyr. Cyflwynir yr adroddiad i fwrdd asesu'r pwnc. Trafodir problemau yn ymwneud â pherfformiad a gweithrediad y modiwl ym mhresenoldeb yr arholwyr allanol, a gwneir, os oes raid, newidiadau i fodiwlau drwy'r broses addasu. Cyflwynir fersiynau terfynol yr adroddiadau i dimau ansawdd y cyfadrannau ac i arweinydd y cwrs.

2.89 Mae arweinydd y cwrs yn gyfrifol am drefnu proses adolygu'r cwrs, gan gynnwys darpariaeth y partner cydweithredol (lle bo'n berthnasol), ac am arwain trafodaeth ar fwrdd y cwrs a chynhyrchu'r adroddiad cwrs a'r cynllun gweithredu. Anogir arweinwyr cwrs i geisio barn staff rhan amser a gwasanaethau proffesiynol fel rhan o'r broses adolygu. Wrth werthuso'r cwrs, mae angen i arweinydd y cwrs gymryd i ystyriaeth adroddiadau'r arholwyr allanol, adborth gan fyfyrwyr a data am berfformiad y cwrs. Mae aelodaeth y byrddau cwrs i bwrpasau monitro blynyddol wedi'i diffinio ac yn cynnwys myfyrwyr. Mae swyddogion gweinyddu'n casglu unrhyw broblemau ar lefel y gyfadran neu'r CBCDC i'w cynnwys yn adroddiad monitro blynyddol y gyfadran neu'r coleg, ac maent yn cynllunio cynnydd o ran y cynlluniau gweithredu, sy'n dod yn rhan safonol o agendâu byrddau cwrs.

2.90 Mae penaethiaid yr ysgolion yn cymryd trosolwg o ganlyniadau'r byrddau cwrs, gan nodi problemau yn ymwneud ag arferion da, a materion i'w harchwilio. Dylai deoniaid y cyfadrannau a Phennaeth CBCDC, trwy dynnu ar adroddiadau a chynlluniau gweithredu'r cyrsiau, ddefnyddio templed safonol i gynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol a chynlluniau gweithredu'r cyfadrannau, a'u cyflwyno i Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran/Coleg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 'archwiliwr' fel aelod, aelod o'r Brifysgol sy'n annibynnol i Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran/Coleg, sydd â'r rôl o gadarnhau bod y gwerthusiad yn effeithiol.

2.91 Y cam nesaf yw'r cam craffu, lle mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn derbyn adroddiadau, cynlluniau gweithredu a chofnodion bwrdd y cyfadrannau ac yn pennu unrhyw gamau gweithredu ar lefel y Brifysgol sy'n codi o'r broses. Y cam olaf yw adroddiad cryno a chynllun gweithredu a gyflwynir i'r Bwrdd Academaidd i'w gymeradwyo. Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd wedi comisiynu adolygiad o brosesau monitro blynyddol yn 2013-14, a wnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio fwy ar risgiau sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

2.92 Mae partneriaid cydweithredol yn dilyn proses debyg iawn, gydag aelodaeth bwrdd y cwrs wedi'i ymestyn i gynnwys staff allweddol y partneriaethau a'r adroddiad cwrs yn bwydo i mewn i'r adroddiad cwrs yn y Brifysgol neu'n uniongyrchol i'r adroddiad cyfadran.

2.93 Mae pob cwrs yn atebol i gael ei ail-ddilysu bob chwe blynedd a rheolir newidiadau drwy Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran. Pan fydd cyfadrannau'n penderfynu cau cyrsiau, paratoir cynllun gweithredu cau cwrs ac mae hwn yn cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran, sydd wedyn yn monitro diddymiad graddol y cwrs.

2.94 Gwneir y gwaith o fonitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar sail unigol, ac mae'r datganiad blynyddol am gynnydd yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Cynnydd Blynyddol. Cedwir llygad ar berfformiad cyffredinol myfyrwyr ôl-raddedig gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion, sy'n paratoi adroddiadau ar gyfer Pwyllgorau Rhaglenni Ymchwil y Cyfadrannau ac, yn y pen draw, Bwyllgor Ymchwil a Phwyllgor Sicrhau Ansawdd y Brifysgol.

2.95 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy adolygu fframwaith ansawdd a safonau'r Brifysgol, y wefan Monitro Blynyddol, y gweithdrefnau ar gyfer monitro blynyddol a'r atodiadau, y porth Gwybodaeth Rheoli, adroddiadau arholwyr allanol, cofnodion Pwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, adolygiadau modiwl, adroddiadau cwrs, crynoadau, a chynlluniau gweithredu, dogfennau sy'n dangos newidiadau yn codi o'r monitro blynyddol, cynlluniau gweithredu'r cyfadrannau, yr adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd i'r Bwrdd Academaidd, cofnodion y byrddau asesu, adroddiadau ail-ddilysu, esiamplau o addasiadau i gyrsiau a deunyddiau datblygiad staff ar-lein ar gyfer paratoi a defnyddio adroddiadau.

2.96 Cyflwynwyd proses fonitro flynyddol safonol newydd ar gyfer 2014. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth eang i ddangos bod y broses yn gweithio'n effeithiol, gan gynnwys: pennu arferion da a chamau gweithredu ar gyfer gwelliant, monitro cynlluniau gweithredu yn barhaus gan dimau cwrs, a newidiadau sy'n codi o'r broses. Er ei bod yn newydd yn ei ffurf gyfredol, roedd hi'n ymddangos bod y broses wedi'i dogfennu'n dda, ei deall gan y staff ac yn caniatáu goruchwyliaeth sefydliadol effeithiol.

2.97 Mae adolygiadau modiwl yn defnyddio gwybodaeth o adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cyrhaeddiad Myfyrwyr (SAPI) sy'n cynnwys y dangosyddion perfformiad myfyrwyr allweddol ar gyfer y modiwlau. Mae adroddiadau cwrs yn defnyddio gwybodaeth o Grynoadau Cwrs cynhwysfawr sy'n cynnwys y pwyntiau data allweddol ar gyfer cyrsiau (yn cynnwys data am gynnydd, yr AMC, yr arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE), a chanran o raddau anrhydedd da), ac ar y sail yma, mae camau gweithredu wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gweithredu'r cyrsiau, lle bo'n briodol. Mae defnyddio data i hysbysu canlyniadau'r prosesau monitro cyrsiau blynyddol wedi'i gynnwys yn llawn.

2.98 Lle darperir modiwlau ar draws nifer o safleoedd a/neu bartneriaethau, dim ond un adroddiad a gynhyrchir. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r perfformiad ar y modiwl ond nid yw'n hwyluso gwahaniaethu rhwng lleoliadau. Sicrhawyd y tîm adolygu bod perfformiad bob modiwl ymhob lleoliad yn cael eu craffu gan yr Is-Bwyllgor Ansawdd Partneriaethau, ac y darperir y data ar gyfer pob canolfan i Swyddogion Cyswllt y Brifysgol i'w bwydo i mewn i'r adroddiad cwrs, lle bo'n briodol.

2.99 Mae'r gwaith o graffu data crai'r cyrsiau (yn cynnwys adroddiadau arholwyr allanol) yn arwain at gynhyrchu'r adroddiad cwrs, ond nid yw myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gwaith yma. Yn lle hynny, mae myfyrwyr yn gweld yr adroddiadau drafft a'r cynlluniau gweithredu mewn pwyllgorau cwrs. Roedd yr arferion yn anghyson o ran a oedd y myfyrwyr yn gweld adroddiadau arholwyr allanol mewn gwirionedd.

2.100 Er bod deoniaid y cyfadrannau a Phennaeth CBCDC i fod i gynhyrchu adroddiad i fynd gyda chynlluniau gweithredu'r cyfadrannau, mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd wedi eu heithrio rhag y gofyniad yma ers dwy flynedd. Mae cynlluniau'r cyfadrannau'n atebol i gael eu craffu gan Bwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau a Phwyllgor Sicrhau Ansawdd CBCDC, sy'n cynnwys archwiliwr o gyfadran arall, ac yna gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd.

Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd ar y datblygiad a gafwyd, ac mae'n cynhyrchu cynllun gweithredu i'r Brifysgol. Mae'r broses hon yn sicrhau, yn fewnol ac yn annibynnol, bod yr arferion o graffu a goruchwylio'r sefydliad yn drwyadl.

2.101 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau am weithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu cyrsiau. Mae Disgwyliad B8 yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

Cod Ansawdd, *Pennod B9: Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr*

Y canfyddiadau

2.102 Mae rheoliadau ar gyfer Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr wedi'u nodi'n glir yn y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir. Mae rheoliadau tebyg ar gyfer Graddau Ymchwil, a'r rheiny ar gyfer cyrsiau a ddilyswyd o'r blaen gan Brifysgol Cymru, Casnewydd, wedi'u hamlinellu'n glir mewn dogfennau eraill hefyd.

2.103 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

2.104 Yn dilyn ffurfio'r Brifysgol, mabwysiadwyd Trefn Gwynion Myfyrwyr Prifysgol Morgannwg gynt ar draws y sefydliad newydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb, cadwodd myfyrwyr prifysgol Casnewydd gynt reoliadau ar gyfer apeliadau a chwynion Prifysgol Cymru, Casnewydd gynt, er y bydd y rhain wedi'u diddymu'n raddol erbyn y bydd myfyrwyr Casnewydd sy'n weddill o'r cyfnod cyn yr uno yn graddio. Dangosodd y myfyrwyr ddealltwriaeth glir o hyn.

2.105 Rhoddir gwybodaeth glir i'r myfyrwyr am reoliadau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag apeliadau a chwynion, ar wefannau a thrwy Ganolfannau Cyngor Campws, cynrychiolwyr myfyrwyr, ac UniLife. Mae'r berthynas rhwng camau ffurfiol ac anffurfiol y cwynion wedi'i hamlinellu'n glir. Mae Siarter y Myfyrwyr yn esbonio goblygiad y myfyrwyr i'w gwneud eu hunain yn ymwybodol o lawlyfrau a gweithdrefnau'r Brifysgol, ac i gadw at reoliadau.

2.106 Cefnogir y drefn gwyno gan gymodwyr myfyrwyr, sy'n aelodau o staff nad ydynt wedi ymwneud â'r achos o gwbl. Yn ystod ail gam y drefn gwyno, dewisir y cymodwr i ystyried yr atebion posibl i ddatrys y sefyllfa, ac i awgrymu'r canlyniad i'r ddwy ochr. Yna mae'r achwynydd a'r gyfadran/adran/coleg yn cwrdd â'r cymodwr, yn unigol neu ar y cyd, i drafod yr atebion a awgrymwyd. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda'r ateb sydd wedi'i awgrymu, yna mae'r drefn yn symud ymlaen i gam 3. Argymhellodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol bod y Brifysgol yn creu swyddi cymodwyr myfyrwyr, gan amlygu'r gallu, yr ymrwymiad a'r cywirdeb y maent yn eu dwyn i'r broses.

2.107 Mae'r Brifysgol yn ymdrin â chwynion ac apeliadau'r myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner, ac mae'n ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn gallu ymgysylltu â'r prosesau hyn yn effeithiol cyn y byddent eu hangen. Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cynnig cyngor arbenigol am reoliadau a gweithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau. Ond, nid yw argymhellion y Gweithgor Llawlyfrau Cwrs yn cynnwys gwybodaeth am y broses apelio a chwyno. Gwelwch Ddisgwyliad C hefyd.

2.108 Yn rhan o brosesau monitro'r Brifysgol ar gyfer apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr, mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda chymodwyr myfyrwyr i rannu gwybodaeth, ystyried achosion blaenorol a rhannu arferion gorau. Mae'r Grŵp Apeliadau, Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr wedi gweithredu newidiadau yn y ffordd mae metrigau yn ymwneud ag apeliadau a chwynion yn cael eu cofnodi. Tynnir aelodaeth y Grŵp Apeliadau, Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr o'r gymuned academaidd, gwasanaethau cymorth proffesiynol, ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Grŵp Apeliadau, Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr yn adolygu nifer a natur yr achosion a gyflwynwyd bob blwyddyn, natur a chysondeb

y datrysiadau a wnaed, gweithrediad y gweithdrefnau, yr achosion a ddangosodd arferion da a'r hyn a ddysgwyd ohonynt, a'r achosion a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ac mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y broses gwyno ac apelio ar y cyfan. Derbynnir cofnodion y Grŵp Apeliadau, Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr gan y Bwrdd Academaidd, ac o'r flwyddyn academaidd hon ymlaen bydd y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu yn eu derbyn hefyd.

2.109 Mae'r rheoliadau a'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau a chwynion yn nodi'r amserlenni'n glir ar gyfer datblygu a datrys achosion. Rhoddir adroddiad i'r Grŵp Apeliadau, Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr bob blwyddyn mewn perthynas â'r amserlenni a, lle cymerir maint annerbyniol o amser i ymateb, mae angen esbonio hynny. Yn dilyn adborth gan gyfadrannau, cytunodd y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd i ymestyn y dyddiadau targed ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14.

2.110 Ar sail yr holl dystiolaeth hon, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.

Cod Ansawdd, *Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill*

Y canfyddiadau

2.111 Pan gafodd ei ffurfio, etifeddodd y Brifysgol nifer sylweddol o bartneriaethau cydweithredol yn y DU a thramor gan ei sefydliadau blaenorol. Yn dilyn hynny cafodd y partneriaethau yma i gyd eu hadolygu ac mae'r Brifysgol yn gweithredu portffolio wedi'i resymoli o bartneriaethau erbyn hyn lle nad yw unrhyw ddarpariaeth wedi'i darparu neu ei hasesu mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae nifer y partneriaethau cyfredol i'w gweld ar dudalen 4. Mae ei Chynllun Academaidd yn gosod partneriaethau academaidd yng nghalon ei chenhadaeth, gyda'r bwriad o bennu a thyfu nifer o 'bartneriaethau rhyngwladol newydd sylweddol eu maint' dros y nifer o flynyddoedd nesaf.

2.112 Ar hyn o bryd mae partneriaethau gyda cholegau addysg bellach yn y DU yn dominyddu portffolio cydweithredol y Brifysgol, gan gynnwys rhwydwaith o golegau addysg bellach mewn Cynghrair Strategol â'r Brifysgol. Mae'r Gynghrair yn datblygu'r cydberthnasau ymhellach oedd wedi'u sefydlu'n barod o fewn y fenter UHOVI, ac yn darparu fframwaith lle mae darpariaeth yn cael ei datblygu ar y cyd i fanteisio orau ar adnoddau'r amrywiol bartneriaid, i gwrdd â'r galw gan y farchnad ranbarthol ac i gynnig cyfleoedd am gynnydd i'r myfyrwyr yn y rhanbarth. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi cofrestr gynhwysfawr o'i phartneriaethau cydweithredol a adolygir ymhob un o gyfarfodydd yr Is-Bwyllgor Ansawdd Partneriaethau.

2.113 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio partneriaethau cydweithredol yn academaidd, gan gynnwys cymeradwyo, monitro ac adolygu trefniadau partneriaeth yn cael eu cytuno gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, eu hardystio gan y Bwrdd Academaidd, a'u disgrifio'n fanwl yn y Fframwaith. Mae ei deipoleg yn disgrifio'r gwahanol fodelau o bartneriaeth ac yn cyseinio'n dda gyda *Phennod B10* y Cod Ansawdd. Mae'r Brifysgol wedi dewis peidio dilysu'r ddarpariaeth a luniwyd gan sefydliadau partner, gan gyfyngu ei chydberthnasau â darpariaeth etholfraint a darpariaeth etholfraint ar y cyd. Mae teipoleg y sefydliad o gydberthnasau cydweithredol a ganiateir yn cynnwys dyfarniadau dwbl, ond nid oes gan y Brifysgol unrhyw drefniadau dyfarniad dwbl ar hyn o bryd. Mae hefyd wedi datblygu nifer o drefniadau trosglwyddo, ac mae ganddo broses sefydledig ar gyfer cymeradwyo lleoliadau gwaith ar gyfer trefniadau dysgu hyblyg. Mae nifer o ddogfennau cefnogol sy'n rhoi manylion y gweithdrefnau cysylltiedig. Mae'r prosesau ar gyfer cymeradwyo cyrsiau cydweithredol yr un fath ag ydynt ar gyfer darpariaeth 'gartref' (gwelwch hefyd A3.4 a B1), sydd wedi ei hysbysu gan gyd-destun y bartneriaeth. Cyn y rhain ceir ymweliad safle i hysbysu asesiadau diwydrwydd dyladwy a risgiau, a phroses ddilynol i gymeradwyo'r sefydliad cydweithredol arfaethedig fel partner y Brifysgol, ac yn dilyn hynny gwneir cytundebau ffurfiol a chânt eu llofnodi gan y Brifysgol a'r partner. Bydd y panel cymeradwyo partneriaeth ffurfiol yn ymweld â'r partner arfaethedig hefyd os bydd y bartneriaeth wedi cael ei hasesu ar y cam gwerthuso cychwynnol fel un a allai fod yn risg uchel. Mae sefydliadau a chyrff partner yn cael eu hadolygu a'u hail-gymeradwyo ar gylchred chwe blynedd, er bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i wneud adolygiad interim ar ôl gweithredu am ddeuddeg mis. Hysbysir yr adolygiad gan dystiolaeth sy'n debyg i honno sy'n ofynnol ar y cam cymeradwyo cychwynnol, ynghyd ag adolygiad beirniadol o weithrediad y bartneriaeth. Mae'r asesiadau risgiau cysylltiedig yn penderfynu a yw'r adolygiad wedi'i seilio ar bapur a'i lofnodi gan yr Is-grŵp Partneriaethau yn y DU a Thramor i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor, neu a ydyw i gael ei ystyried gan banel cymeradwyo llawn.

2.114 Mae trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu cyrsiau cydweithredol yn dilyn yn yr un modd y rheiny ar gyfer darpariaeth ar y campws (gwelwch hefyd A3.3, A3.4 a B8). Lle mae cyrsiau wedi eu darparu ar gampysau'r partneriaid a'r Brifysgol, mae staff o'r Brifysgol yn mynd ar Fyrddau Cwrs a gynhelir yn y sefydliad partner, ac hefyd yn y Brifysgol. Felly mae Bwrdd Cwrs y Brifysgol yn ystyried materion a godwyd ymhob un o'r canolfannau darparu, materion a godwyd gan yr holl arholwyr allanol, ac yn dilyn hynny mae un adroddiad a chynllun gweithredu'r Bwrdd Cwrs yn cynnwys yr holl enghreifftiau o ddarpariaeth. Lle mae gan bartneriaid berthynas gyda'r Brifysgol sy'n cynnwys mwy nag un cwrs, cyflwynir adroddiad blynyddol trosfwaol hefyd ar lefel sefydliadol i'r Brifysgol.

2.115 Ar lefel y Brifysgol, mae crynodebau blynyddol o Adroddiadau Partneriaid Cydweithredol, a sylwadau gan arholwyr allanol sydd wedi ystyried gwaith gan gyrsiau a ddarperir mewn sefydliadau partner, yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd. Felly, gall y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd gymharu darpariaeth ar y campws cartref a darpariaeth mewn sefydliadau partner mewn perthynas â safonau academaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

2.116 Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn gyfrifol am oruchwylio materion partneriaeth, a chaiff ystyriaeth fanwl ei dirprwyo'n ffurfiol i'r Is-Bwyllgor Ansawdd Partneriaethau. Mae ystyriaeth busnes cychwynnol o bartneriaid posibl, a'u haliniad gyda'r Brifysgol ar lefel strategol yn cael ei ystyried gan y Grŵp Partneriaethau yn y DU a Thramor i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor (swyddogaeth a reolwyd yn flaenorol gan Banel Partneriaethau'r Brifysgol).

2.117 Mae'r Uned Ansawdd Cydweithredol yn rhoi cefnogaeth i gyfadrannau a'u partneriaid ar bob cam o'r cylch academaidd, ac mae'n darparu cyfoeth o arweiniad cynhwysfawr i Swyddogion Cyswllt y Brifysgol a rhai'r Partneriaid sy'n ffurfio sianel gyfathrebu weithredol academaidd rhwng y Brifysgol a'r partneriaid. Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n addysgu ar ddarpariaeth y Brifysgol mewn sefydliad partner gael eu cymeradwyo gan y Brifysgol drwy ei chynllun Statws Athro Cydnabyddedig (RTS). Cynigir gostyngiad mewn ffioedd i staff o'r fath ar gyfer gweithgareddau datblygiad staff y Brifysgol.

2.118 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy graffu ar ddogfennaeth prosesau, drwy werthuso papurau ac adroddiadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cymeradwyo, adolygu a monitro blynyddol, drwy graffu ar gytundebau partneriaeth a llawlyfrau myfyrwyr, drwy ddarllen amrywiaeth o bapurau pwyllgorau a thrwy gwrdd â staff a myfyrwyr o'r Brifysgol a'r sefydliadau partner.

2.119 Canfu'r tîm adolygu bod digwyddiadau cymeradwyo ac adolygu partneriaethau yn drwyadl a manwl; roedd y papurau'n fanwl ac roedd hi'n amlwg bod diwydrwydd dyladwy wedi'i weithredu. Roedd panelau cymeradwyo'n cynnwys arbenigwyr allanol priodol a oedd yn gymheiriaid. Ystyrir materion canfod adnoddau wrth gymeradwyo, ac er y rhagwelir y bydd gan fyfyrwyr mewn sefydliadau partner fynediad at gyfleusterau priodol yn eu sefydliadau 'cartref', mae ganddynt fynediad ar-lein at adnoddau'r Brifysgol (a mynediad corfforol hefyd os byddent yn dewis ymweld). Yn ogystal mae llawlyfrau myfyrwyr yn cyfeirio at y gefnogaeth sydd ar gael gan wasanaethau myfyrwyr yn y Brifysgol ac yn y sefydliad partner, a derbyniodd y myfyrwyr ymsefydliad priodol i'w cyflwyno i'r Brifysgol, i'w Coleg ac i'w cyrsiau.

2.120 Roedd hi'n ymddangos bod y cytundebau dilynol rhwng y Brifysgol a'i sefydliadau partner yn addas i'r pwrpas, ac yn pennu'r meysydd eang o gyfrifoldeb y partneriaid. Mae tystysgrifau a thrawsgrifiadau ar gyfer dyfarniadau a gynhyrchir gan y Brifysgol (gwelwch hefyd C), yn pennu lleoliad ac iaith yr astudio. Heb eithriad, cafodd penderfyniadau ar dderbyniadau eu cymeradwyo, os nad eu gwneud, gan y Brifysgol, ac yn aml iawn roedd Swyddog Cyswllt y Brifysgol yn cymryd rhan mewn achosion ffiniol. Mae'n ymddangos bod y broses ar gyfer cau partneriaethau wedi'i dogfennu'n dda, ac yn ymdrin â'r angen am ddiogelu profiad y myfyrwyr drwy gydol cyfnod yr

addysgu allan. Mae'r dystiolaeth yn dangos agwedd sympathetig ond cadarn i'r trefniadau cau, heb wanhau gofal sefydliadol a goruchwyliaeth drwy gydol y cyfnod o ddysgu allan.

2.121 Canfu'r tîm adolygu bod adroddiadau blynyddol gan sefydliadau partner ac adroddiadau blynyddol gan Swyddogion Cyswllt y Brifysgol yn gynhwysfawr ac yn werthusol, a bod adroddiad cryno blynyddol y Brifysgol yn adlewyrchu barn y partneriaid a Swyddogion Cyswllt y Brifysgol, ac unrhyw faterion allweddol a bennwyd mewn adroddiadau cwrs blynyddol. Mae adborth gan fyfyrwyr yn awgrymu bod profiad y myfyrwyr AU mewn AB mewn maes a allai gael ei wella. Clywodd y tîm fel yr oedd un mater o ganfod adnoddau a bennwyd yn yr ymarfer monitro blynyddol wedi achosi oedi recriwtiad ar un cwrs cydweithredol ac ail-leoli'r garfan o fyfyrwyr oedd yn weddill i gampws y Brifysgol, a sut y cafodd sylwadau gan yr arholwyr allanol ar un bartneriaeth dramor eu trin yn gyflym. Yn yr un modd, roedd sylwadau yn adroddiadau'r arholwyr allanol mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol wedi eu hatgyfnerthu mewn adroddiad cryno ar lefel sefydliadol. Ond, canfu'r tîm bod sylwadau mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol yn yr adroddiadau cwrs blynyddol ac yn adroddiadau'r arholwyr allanol yn cael eu colli weithiau o fewn y maint o naratif sy'n ymwneud â darpariaeth ar y safle. Mae'r Brifysgol ei hun wedi canfod y mater yma am fod y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd wedi comisiynu adolygiad i ystyried y ffordd orau o sicrhau adlewyrchiad o'r fath yn gyson ar yr holl gyrsiau cydweithredol bob blwyddyn.

2.122 Deellir y cynllun Statws Athro Cydnabyddedig yn dda; canfu'r tîm adolygu bod y broses o gydnabod yn glir ac wedi'i harwain yn dda. Mae'n ymddangos bod rheolaeth ar ddarpariaeth partneriaeth yn glynu at yr un egwyddorion ag sy'n berthnasol ar y campws. Mae gwirio a chydbwyso ychwanegol wedi eu hadeiladu i mewn i'r gweithdrefnau ar gyfer darpariaeth gydweithredol. Er enghraifft, mae Swyddogion Cyswllt y Brifysgol a rhai'r Partneriaid, sy'n chwarae rôl allweddol mewn prosesau cyfathrebu a rheoli ansawdd ar gyfer gwaith partneriaeth, yn derbyn pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant a chymorth gan yr Uned Ansawdd Cydweithredol. Mae Swyddogion Cyswllt y Brifysgol yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau bod y bartneriaeth yn iach. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys goruchwylio'n uniongyrchol y cyrsiau academaidd y mae'r partner yn eu darparu, gweithredu fel y brif sianel gyfathrebu rhwng y sefydliadau, sicrhau cysondeb prosesau a safonau ar draws y bartneriaeth, ymweld â'r partner yn rheolaidd, cyfarfod myfyrwyr ac annog eu cyfraniad i brosesau rheoli ansawdd, cefnogi staff y partner yn eu hymwneud gyda phrosesau'r Brifysgol, canfod anghenion datblygiad y staff, cefnogi staff y partner drwy'r broses o ennill statws athro cydnabyddedig, helpu i ymsefydlu
a chofrestru myfyrwyr, rheoli'r broses asesu, cydlynu'r broses o safoni gwaith myfyrwyr cyn ac ar ôl asesu, a chydlynu ymgysylltiad arholwyr allanol â'r partner. Mae Swyddog Cyswllt y Brifysgol hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Brifysgol, ac yn rhoi adborth am y broses fonitro flynyddol i'r partner yn uniongyrchol. Mae derbyniad eithriadol o dda i Swyddogion Cyswllt y Brifysgol a chânt eu cydnabod gan staff mewn sefydliadau partner. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod rôl Swyddogion Cyswllt y Brifysgol mewn cefnogi gweithrediadau'r partneriaethau cydweithredol cyfredol yn **arfer da**. Cadarnheir bod safonau academaidd cyrsiau a ddarperir mewn mwy nag un safle'n cymharu'n iawn â'i gilydd drwy safoni ar draws y sefydliadau, a thrwy ddefnyddio'r un arholwyr allanol ar draws y ddarpariaeth. Mae'r Brifysgol yn bwriadu galw cynhadledd partneriaeth flynyddol, i ddarparu cyfrwng i'r agenda cydweithredol ar gyfer gwelliant.

2.123 Gan olrhain y Pryder y cyfeiriwyd ato gan ASA (tudalennau 4 i 5), talodd y tîm adolygu sylw arbennig i achos o bartner cydweithredol yn hybu cyrsiau'r Brifysgol yn ddiawdurdod dramor. Yn ei Strategaeth, ei Gweledigaeth, ac yn ei strategaethau sy'n datblygu ar gyfer dysgu ac addysgu, ac ar gyfer rhyngwladoli, mae'r Brifysgol wedi rhoi rhywfaint o ffocws ar ddefnyddio cyfryngau o bell ac ar-lein a thyfu ei sail o fyfyrwyr rhyngwladol. Mae wedi canfod partner tramor strategol y bydd yn gweithio ag o i symud ymlaen yn y ddau faes. Mae'r brifysgol partner yn weddol aeddfed yn y ffordd mae'n darparu deunyddiau ar-lein, ac mae'r bartneriaeth strategol yn cynnwys dau gam; yn gyntaf mae datblygu a darparu fersiynau cwbl ar-lein o

gyrsiau'r Brifysgol, ac yn ail mae darpariaeth rhai o gyrsiau'r Brifysgol mewn dull dysgu cyfunol, gyda chefnogaeth gan nifer o Ganolfannau Dysgu Rhyngwladol y partner.

2.124 Olrheiniodd y tîm adolygu brosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo'r bartneriaeth sefydliadol, ac ar gyfer etholfreinio fersiynau ar-lein o gyrsiau cyfredol i'r partner, yn dilyn pa ddeunyddiau darparu ar-lein manwl fyddai'n cael eu darparu gan y partner. Dilynwyd trefn safonol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo partneriaethau, gan gynnwys ymholiadau yn ymwneud â diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol ar y partner. Mae'r cytundeb cyfreithiol dilynol gyda'r partner yn weddol glir ynghylch y rheidrwydd i unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a gynhyrchir gan y partner gael eu cymeradwyo cyn eu cyhoeddi gan y Brifysgol Clywodd y tîm fod staff academaidd allweddol y Brifysgol yn ymgysylltu o fewn timau datblygu deunyddiau'r partner, ac y byddai'r deunyddiau wedi eu llofnodi gan y Brifysgol cyn cael eu darparu i'r myfyrwyr.

2.125 Roedd y Pryder a gyfeiriwyd at yr adolygiad gan ASA wedi ei ganolbwyntio ar yr hyrwyddiad diawdurdod, gan un o ganolfannau dysgu rhyngwladol y partner, o gyrsiau'r Brifysgol sydd i gael eu darparu, mae'n ymddangos, mewn dull dysgu cyfunol yn y ganolfan ddysgu ei hun (gwelwch hefyd C). Nid oedd llywodraeth y wlad lle'r oedd y ganolfan ddysgu wedi'i lleoli wedi rhoi cymeradwyaeth i ddarparu cyrsiau'r Brifysgol, naill ai i'r Brifysgol ei hun, neu ei sefydliad partner, neu ganolfan ddysgu rhyngwladol y partner.

2.126 Yn syth ar ôl rhoi gwybod am yr hysbysebion heb eu hawdurdodi, sicrhaodd y Brifysgol bod yr hysbysebion wedi eu tynnu, a gwnaeth ymchwiliad trwyadl i'r amgylchiadau gyda'i phartner. Datgelodd yr ymchwiliad, er bod nifer o ganolfannau dysgu rhyngwladol y partner yn is-gwmnïau dan berchennog, roedd eraill yn sefydliadau annibynnol oedd ynghlwm â'r partner drwy gytundebau. Ni chafodd y trefniadau hyn eu pennu ym mhroses diwydrwydd dyladwy'r Brifysgol, er gwaethaf y ffaith fod dogfennau a gyflwynwyd ar gyfer cymeradwyo'r sefydliad neu'r cyrsiau'n dangos y byddai'r Brifysgol yn gweithio gyda'i phartner tuag at ddarparu cyrsiau dysgu cyfunol gyda chefnogaeth gan y canolfannau dysgu.

2.127 Drwy ddarllen tystiolaeth ddogfennol, a'i drafodaethau gyda'r Brifysgol, dysgodd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi atal datblygiad darpariaeth dysgu cyfunol wedyn gyda'i phartner. Dywedwyd wrth y tîm y bydd y Brifysgol, cyn cychwyn gwaith o'r fath, yn dilyn proses diwydrwydd dyladwy ar unrhyw ganolfan ddysgu sydd i ymwneud â chefnogi darpariaeth deunyddiau dysgu cyfunol, a bydd yn ffurfioli'r berthynas yn gytundebol yn uniongyrchol gyda'r ganolfan ddysgu dan sylw.

2.128 Mae'n glir, unwaith yr oeddent yn ymwybodol o'r hysbyseb dramor ddiawdurdod, y cymerodd y Brifysgol gamau cadarn i rwystro'r hysbysebion, ac, yn dibynnu ar ymchwiliad pellach, i atal datblygiad pellach deunyddiau dysgu cyfunol gyda'r partner. Mae'r risg i enw da'r Brifysgol wedi ei leihau felly. Fodd bynnag, heb gyfri'r camau gweithredu cadarn uniongyrchol, mae'r tîm adolygu'n credu, os byddai natur perthynas y partner gyda'i ganolfannau dysgu trydydd parti wedi'u pennu pan wnaed y broses diwydrwydd dyladwy, byddai'r problemau'n llawer llai tebygol o fod wedi digwydd. Felly mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn adolygu ei Pholisi Diwydrwydd Dyladwy a'i gweithdrefnau i sicrhau ei bod yn craffu'r sefydliadau'n wirioneddol neu o bosib yn gysylltiedig â darpariaeth sy'n arwain at ei dyfarniadau.

2.129 Clywodd y tîm adolygu mai un o uchelgeisiau rhyngwladol y Brifysgol (gwelwch dudalen 4) yw datblygu nifer o bartneriaethau rhyngwladol arwyddocaol a fyddai'n croesawu nifer o wahanol ddisgyblaethau academaidd, gan gynnwys ymchwil, ac arwain at gydweithio i oruchwylio myfyrwyr PhD. Er bod y Rheoliadau Graddau Ymchwil yn galluogi perthynas o'r fath, mae'r rheoliadau, y Fframwaith a'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu partneriaethau'n dawel am y prosesau cymeradwyo a goruchwylio a fydd yn angenrheidiol i lansio perthynas o'r fath. Mae'n sicr na fydd y Brifysgol eisiau bod wedi datblygu ei fframwaith rheoliadol i dderbyn trefniadau o'r fath cyn ffurfioli unrhyw gytundebau.

2.130 Mae Cynllun Academaidd y Brifysgol, ac hefyd y Glasbrint Academaidd sy'n datblygu, yn rhoi blaenoriaeth i wella cyflogadwyedd myfyrwyr, ac mae'r Brifysgol yn bwriadu sicrhau y bydd pob myfyriwr yn y dyfodol yn cael ei gefnogi i "ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith yn rhan o'u rhaglen … er mwyn cyflawni cyfres y cytunwyd arni o … Nodweddion Graddedigion", ac mae'n bwriadu adeiladu ymhellach ar gyflawniadau o ran cyflogadwyedd ei graddedigion llwyddiannus, gyda mwy na 93 y cant o'r graddedigion mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach chwe mis ar ôl graddio.

2.131 Mae gweithdrefnau clir, manwl a thrwyadl yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud lleoliadau gwaith strwythuredig yn rhan o'u cwrs, sy'n amlinellu amrywiol rolau'r Brifysgol, y cyflogwyr a'r myfyrwyr, ac yn rhoi fframwaith cadarn ar gyfer pennu a monitro lleoliadau i alluogi cyfadrannau a thimau cwrs i ddarparu dysgu seiliedig ar waith o safon uchel sy'n gyson ac ystyrlon. Darllenodd y tîm adolygu am lwyddiant presennol rhaglenni lleoliad gwaith wedi'u rheoleiddio'n broffesiynol a lleoliadau galwedigaethol integredig.

2.132 Mae nifer o fentrau llwyddiannus yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arddangos cyfleoedd sy'n seiliedig ar waith neu ar y cwricwlwm i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd y myfyrwyr; mae'r Brifysgol yn falch, a hynny'n gyfiawn, o'i chynlluniau GradEdge, High Flyers a Network75.

2.133 Mewn trafodaethau gyda myfyrwyr, clywodd y tîm adolygu bod lleoliadau ffurfiol integredig yn llwyddiannus, ond bod myfyrwyr sy'n ceisio cyfleoedd profiad gwaith mwy cyffredinol yn rhan o'u cwrs yn cael llai o gefnogaeth ac wedi gweld cystadlu ffyrnig am leoliadau. Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, cydnabu'r staff bod tyfiant a chynaliadwyedd dilynol ei amrywiol fentrau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith yn gofyn parhau â'r ffocws.

2.134 Er gwaethaf y problemau penodol sy'n ymwneud ag un o bartneriaethau tramor y Brifysgol (sy'n derbyn sylw uchod), roedd y tîm adolygu o'r farn bod cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau eraill wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol yn gyffredinol. Ar y sail yma, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae problemau sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy sydd wedi'u nodi uchod, hyd nes eu bod wedi derbyn sylw yn unol ag argymhelliad y tîm (gwelwch baragraff 2.129), yn creu risg canolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.

Cod Ansawdd, *Pennod B11: Graddau Ymchwil*

Y canfyddiadau

2.135 Mae strategaeth ymchwil y Brifysgol yn adlewyrchu ei Chynllun Academaidd. Rhoddir pwyslais ar ymchwil cymhwysol sy'n effeithio ar bobl a'r economi, a gwaith ymchwil sy'n hysbysu addysgu a datblygiad y cwricwlwm. Mae'r Brifysgol wedi gosod targedau ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2020 i gynyddu nifer y staff 3* a 4* a gyflwynir o 20 y cant, i gynyddu recriwtiad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o 20 y cant, ac i ddyblu ei incwm o waith ymchwil.

2.136 Amlinellir rheoliadau ar gyfer graddau ymchwil yn y Fframwaith, a chânt eu diffinio'n fanylach yn y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil a'r Cod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil. Gellir cael gafael ar y rhain ar wefan y Brifysgol a chânt eu rhoi i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

2.137 Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer fechan o gyrsiau MA ac MSc drwy gyrsiau Ymchwil ond nid oes cyfeiriad at y dyfarniadau hyn na'u fframwaith rheoliadol o fewn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at nifer o gyrsiau doethuriaeth broffesiynol a enwir. Ond nid oes fframwaith generig sy'n ymwneud â'r cam yn y dyfarniadau hyn a addysgir, gan gynnwys maint y credyd a'r gofynion ynglŷn â symud ymlaen i'r cam traethodau hir. (Gwelwch A2.1.)

2.138 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio tystiolaeth yn ymwneud â graddau ymchwil a ddarperir gan y Brifysgol. Roedd hyn yn cynnwys rheoliadau, codau ymarfer a chofnodion pwyllgorau. Bu'r tîm hefyd yn archwilio gwybodaeth ar wefan y Brifysgol ac yn siarad â myfyrwyr ymchwil, goruchwylwyr, staff academaidd eraill a staff cymorth proffesiynol eraill.

2.139 Mae strwythurau'r Brifysgol i reoli ei graddau ymchwil yn caniatáu iddi gynnal goruchwyliaeth sefydliadol gan adael iddi ystyried yn briodol a gweithredu materion perthnasol ar lefel gyfadrannol. Dirprwyir y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd y graddau ymchwil i Bwyllgorau Rhaglenni Ymchwil y Cyfadrannau. Mae'r rhain yn gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau, am ystyried materion moesegol ac am fonitro cynnydd myfyrwyr ymchwil. Mae'r rhain i gyd yn adrodd i'r Is-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil sy'n ystyried ac yn cymeradwyo trefniadau arholi, eu canlyniadau ac adroddiadau arholwyr allanol, ac yn archwilio'r broses o fonitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn flynyddol. Mae hefyd yn ystyried canlyniadau'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig ac arolwg mewnol y Brifysgol ei hun. Cynhelir yr oruchwyliaeth sefydliadol gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Pwyllgor Ymchwil, sy'n derbyn adroddiadau gan yr Is-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil.

2.140 Mae gwe-dudalennau'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n ymwneud â phob agwedd o'r broses ymgeisio ac yn cynnwys dolenni at y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia. Mae hefyd ddolenni at wybodaeth benodol i fyfyrwyr rhyngwladol, ac at y Swyddfa Ymchwil Graddedigion. Mae'r trefnau i ystyried ceisiadau'n cynnwys defnyddio adolygwyr annibynnol hyfforddedig ac yn sicrhau bod cynigion yn cael eu gwneud dim ond pan fo'n sicr bod trefniadau cefnogi a goruchwylio digonol ar gael a bod y gwaith ymchwil a gynigir yn cyfateb â strategaeth ymchwil y Gyfadran. Mae gweithgareddau ymchwil wedi eu canolbwyntio yn sefydliadau a chanolfannau ymchwil y Brifysgol, fel bod myfyrwyr yn cael eu recriwtio i gymunedau ymchwil

egnïol. Mae gweithdrefnau hefyd yn cynnwys darpariaeth briodol i ystyried materion moesegol a, lle bo'n briodol, fframweithiau allanol ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu bod ganddynt oll fynediad priodol at unrhyw adnoddau arbenigol yr oeddent eu hangen ar gyfer eu gwaith ymchwil.

2.141 Mae'r myfyrwyr yn derbyn llythyr cynnig cynhwysfawr sy'n cadarnhau eu dyddiad cychwyn, y ffioedd a'r trefniadau goruchwylio. I hwyluso prosesau ymsefydlu a monitro blynyddol mae tri derbyniad erbyn hyn ar amseroedd penodol o'r flwyddyn.

2.142 Mae cyfrifoldebau'r myfyrwyr ymchwil a'u goruchwylwyr wedi'u diffinio'n glir yn y Cod Ymarfer. Gwahoddir yr holl fyfyrwyr i weithgaredd ymsefydlu canolog, a disgwylir iddynt fynychu, er y gall myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr dysgu o bell gael gafael ar yr wybodaeth yn electronig. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y gofynion mynediad a'r ffioedd yn glir a'u bod wedi cael eu cyfweld gan eu goruchwylwyr yn ystod y broses ymgeisio. Roeddent yn nodi hefyd y gefnogaeth ddefnyddiol a gawsent gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

2.143 Mae gan y Brifysgol God Ymarfer ar gyfer Goruchwylwyr Ymchwil sy'n diffinio'n glir beth yw rolau Cyfarwyddwyr Astudiaethau ac Ail Oruchwylwyr. Mae'r Brifysgol yn gofyn i oruchwylwyr myfyrwyr ymchwil profiadol ddiweddaru eu gwybodaeth a'u hyfforddiant bob tair blynedd. Caiff hyn ei fonitro drwy'r broses ar gyfer monitro myfyrwyr ymchwil yn flynyddol a chynhelir cofnodion hyfforddiant gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion. Ond, roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n awgrymu bod cofnodion hyfforddiant nifer o oruchwylwyr yn anghyflawn. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod holl gofnodion yr hyfforddiant i oruchwylwyr ymchwil ôl-raddedig yn gyflawn ac yn addas i'w pwrpas.

2.144 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd myfyrwyr ymchwil unigol yn gynhwysfawr. Mae Cyfarwyddwyr Astudiaethau'n cyflawni adroddiad monitro blynyddol ar gyfer pob myfyriwr. Mae'r broses wedi'i disgrifio yn y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil ac yn ystod y cyfnod ymsefydlu ond byddai'n cael ei hegluro ymhellach i fyfyrwyr drwy ei chynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil. Gwneir yr holl benderfyniadau am gynnydd, gan gynnwys codi gradd myfyrwyr o MPhil i PhD, yn annibynnol ar lefel y gyfadran. Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig ond mae hefyd yn gwneud ei arolwg mewnol blynyddol ei hun lle mae'r cyfraddau ymateb yn uwch, oddeutu 70 y cant. Defnyddir adborth o hyn a gwybodaeth ystadegol arall gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion i lunio adroddiad monitro blynyddol sy'n gynhwysfawr a myfyriol ar gyfer bob cyfadran ac sy'n arwain at gynhyrchu cynllun gweithredu blynyddol.

2.145 O ganlyniad i anawsterau gweithredol, mae'r Brifysgol wedi rhoi'r gorau'n ddiweddar i'w modiwl Tystysgrif Ôl-radd mewn Ymchwil. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ymchwil Graddedigion yn parhau i ddarparu'r sgiliau generig a'r elfen o hyfforddiant ymchwil. Mae'r Swyddfa Ymchwil Graddedigion yn darparu cyfleoedd ychwanegol i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy a pharatoi ar gyfer cyflogaeth drwy raglen o seminarau a ddarperir mewn gwahanol rannau o'r campws a chyfres o ganllawiau 'Sut i' sy'n hawdd cael gafael arnynt. Nododd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu bod yr wybodaeth a'r gweithdai a ddarperir gan y Swyddfa Ymchwil Graddedigion yn ddefnyddiol a bod ei staff yn gefnogol.

2.146 Mae'r Brifysgol yn gwneud rhywfaint o ddefnydd cyfyngedig o fyfyrwyr ôl-raddedig mewn addysgu. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil yn diffinio cyfyngiadau ar faint y gwaith addysgu y gall myfyrwyr ei wneud. Dywedodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oedd wedi bod yn cymryd rhan mewn addysgu eu bod wedi darparu seminarau a sesiynau tiwtorial yn bennaf. Roedd unrhyw weithgareddau marcio wedi dilyn cynllun diffiniedig ac wedi eu safoni gan arweinydd y modiwl.

2.147 Hyd ddiwedd sesiwn 2013-14, roedd gan bob Cyfadran Gynrychiolydd Llais y Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig ar yr Is-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil. Yn dilyn adolygiad gan y Grŵp Gweithredol, rhoddwyd y gorau i'r rôl yma a chafwyd cynrychiolwyr gwirfoddol yn ei lle. Fodd

bynnag, nid oes gan y ddwy gyfadran unrhyw gynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil bellach. Mae hyn wedi ei drafod ymhellach o dan B5.

2.148 Mae prosesau cyflwyno ac arholi wedi'u diffinio'n glir yn y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil ac yn y Cod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil. Mae'n rhaid i drefniadau arholi, gan gynnwys yr arholwyr allanol, gael eu cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil, sydd hefyd yn ystyried adroddiadau'r arholwyr. Mae'r Brifysgol yn bwriadu monitro cynnydd ei myfyrwyr yn fwy gofalus fel bod modd iddi gynyddu'r nifer ohonynt sy'n cwblhau eu graddau mewn da bryd.

2.149 Mae manylion y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau yn y Cod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil ac yn y Rheoliadau Graddau Ymchwil. Mae'r Is-bwyllgor Rhaglenni Ymchwil hefyd yn monitro cwynion ac apeliadau fel eitem sefydlog ar yr agenda.

2.150 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Brifysgol ddull effeithiol o reoli a gweithredu ei graddau ymchwil a bod ganddi systemau ar waith i sicrhau bod ei safonau academaidd yn cael eu cadw. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu o'r farn y gallai'r diffyg cynrychiolaeth briodol o fyfyrwyr ymchwil o fewn ei strwythurau rheoli a'r diffyg cyfleoedd i lais y myfyrwyr gael ei glywed ac yr ymatebir iddo, gyflwyno risg i brofiad y myfyrwyr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni'n gyffredinol, ond bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.151 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau gyda'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

2.152 Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau ar gyfer ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Pennir arferion da yng nghanllawiau'r Brifysgol ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, ac ar gyfer rôl Swyddogion Cyswllt y Brifysgol mewn partneriaethau cydweithredol cyfredol. Fodd bynnag, mae rhai problemau a risgiau'n parhau sy'n ymwneud â chynrychiolaeth myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, defnyddio prosesau academaidd a gweithdrefnau monitro, argaeledd adroddiadau arholwyr allanol i fyfyrwyr, y gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ar gyfer partneriaethau cydweithredol, a chofnodion o'r hyfforddiant i oruchwylwyr graddau ymchwil.

2.153 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

Y canfyddiadau

3.1 Mae gwybodaeth am y Brifysgol a'i darpariaeth ar gael yn allanol ar wefan y Brifysgol, ac yn fewnol ar y fewnrwyd, ar UniLife ac ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r mwyafrif o'r wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi wedi bod dan adolygiad, neu'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac yn cael ei newid o ganlyniad i'r uno.

3.2 Mae'r strwythurau a'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu hyn drwy archwilio ystod o wybodaeth a ddarperir gan y Brifysgol, i'r myfyrwyr cyfredol ac i ddarpar fyfyrwyr, mewn print ac mewn ffurfiau digidol, gan gynnwys y wefan a'r rhith-amgylchedd dysgu. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ac â staff academaidd a staff cymorth.

3.3 Mae'r Brifysgol yn defnyddio proses dderbyn ddi-bapur trwy UCAS ac yn nodi hyn yn glir yn y tudalennau ar-lein perthnasol. Trwy gydol y daith ymholi ac ymgeisio, mae cynlluniau trawsnewid wedi'u llunio i roi cyngor i ddarpar fyfyrwyr am bob cam yn y broses recriwtio, dethol a derbyn a pha gamau sy'n ofynnol ganddynt er mwyn symud eu hymholiad neu gais i astudio ymlaen.

3.4 Cyfathrebir gwybodaeth am wneud cais i gael lle ar gyrsiau ôl-raddedig a addysgir i ddarpar ymgeiswyr a'u cynghorwyr drwy ddeunyddiau hyrwyddo mewn print ac ar-lein, ynghyd â digwyddiadau ar y campws, neu oddi arno. Mae'r cynllun trawsnewid a'r cynllun dyrchafu ôl-raddedig yn hysbysu'r gweithgaredd yma. Mae'r Swyddfa Ymchwil Graddedigion yn cynnig siop un stop i roi cyngor, arweiniad a gwybodaeth i ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig; mae'r rheiny sy'n llwyddiannus yn derbyn llythyrau cynnig cynhwysfawr gyda manylion ynglŷn â'r dyddiad cychwyn disgwyliedig, dull yr astudio, enwau eu goruchwylwyr a Chyfarwyddwr yr Astudiaethau, ynghyd â gwybodaeth am gofrestru/ailgofrestru, ffioedd a monitro cynnydd. Darperir rhagor o wybodaeth i'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy sesiynau ymsefydlu, gyda gwybodaeth wrth gefn ar gof bach USB.

3.5 Mae'r wefan i fyfyrwyr UE a rhyngwladol, y Canllaw i Fyfyrwyr UE, a'r Canllaw i Fyfyrwyr Rhyngwladol yn darparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr UE a rhyngwladol. Mae'r canllawiau yma'n rhoi gwybodaeth gyflawn i ymgeiswyr israddedig ac ôl-raddedig, yn cynnwys manylion y broses dderbyn, y ffioedd, a'r gofynion fisa. Mae diwrnodau agored yn cynnig cyfleoedd i drafod â swyddogion recriwtio ac asiantiaid recriwtio wyneb yn wyneb, ynghyd â rhagor o wybodaeth fanwl mewn print.

3.6 Mae UniLife yn chwarae rôl allweddol mewn darparu gwybodaeth gynghorol eang, diweddariadau deinamig, ac offer rhyngweithiol ar-lein i fyfyrwyr i ateb eu hanghenion. Mae gwybodaeth gynghorol yn cynnwys y gwasanaethau sydd ar gael i'r myfyrwyr: gwasanaethau llyfrgell, gwasanaethau cyflogadwyedd, darpariaeth sgiliau astudio a lles, ynghyd â phynciau eang sy'n ymwneud â bywyd myfyrwyr. Mae'r cynnwys deinamig yn cynnig porthiant swyddi, bwrdd mân hysbysebion, a diweddariadau'r campws, y cyfadrannau a'r ysgolion. Ymysg yr offer rhyngweithiol sydd ar gael i'r myfyrwyr, mae cyfrifon e-bost, storfa cwmwl, calendrau, amserlenni, system bwcio apwyntiad ar-lein, system hunanweinyddu cofnodion myfyrwyr, a chyfrifon TG. Mae'r ap ffôn symudol UniLife yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth ochr yn ochr â nodweddion byw effeithiol 'Gofyn i Lyfrgellydd' a 'Gofyn i Gynghorydd Anabledd' Mae nodwedd cyfleoedd i weithio ar gyfer gwaith rhan amser, swyddi i raddedigion, profiad gwaith â thâl, a gwaith gwirfoddol.

Mae'r ap hefyd yn cynnig newyddion treigl o'r campws ac yn gweithredu fel canolbwynt canolog ar gyfer amrywiaeth o wybodaeth a mynediad at gatalog y llyfrgell gyda swyddogaeth chwilio effeithiol a'r gallu i gadw wrth gefn. Canfu'r tîm adolygu bod yr wybodaeth ar wefan UniLife sy'n wynebu'r myfyriwr wedi'i diweddaru, yn gywir ac yn addas. Sicrhawyd y tîm fod mecanweithiau ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth ar wefan UniLife yn gywir ac yn gyfredol.

3.7 Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am eu modiwlau ar y rhith-amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, canfu'r tîm nad yw'r wybodaeth am fodiwlau wedi'i manylu'n gyson (heblaw mewn CBCDC, lle derbyniodd y myfyrwyr wybodaeth am gyrsiau sy'n gywir, yn hygyrch ac wedi'i ddiweddaru). Mae'r Brifysgol wrthi'n symud yr holl wybodaeth am fodiwlau i'w rhith-amgylchedd dysgu newydd.

3.8 Nid yw'r wybodaeth am gyrsiau astudio'r myfyrwyr ar gael yn gyson i'r myfyrwyr ar ddechrau eu cyrsiau neu yn ystod eu hastudiaethau. Nid yw hyn yn broblem yn y CBCDC, sy'n darparu'r llawlyfrau cwrs manwl wedi'u diweddaru ar ei rhith-amgylchedd dysgu, gydag amrediad eang o wybodaeth, yn cynnwys manylebau cyrsiau, ymhle i gael rheoliadau, arweiniad ar asesiadau a gwasanaethau cymorth, ac enwau a thadogaethau'r arholwyr allanol. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywiol ar draws gweddill y Brifysgol gwybodaeth ar lefel cwrs. Mae rhai o'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth briodol wedi'i diweddaru mewn llawlyfrau print neu drwy'r rhith-amgylchedd dysgu, er bod gan fyfyrwyr eraill lawlyfrau sydd wedi mynd yn hen iawn neu ddim llawlyfrau o gwbl mewn unrhyw ffurf. Canfu'r tîm adolygu bod y rhith-amgylchedd dysgu'n cynnwys llawlyfrau cwrs sydd wedi mynd yn hen, a rhai tudalennau am gyrsiau sydd heb unrhyw wybodaeth o gwbl (gan felly fethu â chadw at bolisi gofynion sylfaenol y Brifysgol). Mae'r Brifysgol yn cydnabod pryderon am ddarpariaeth llawlyfrau cwrs ac yn cymryd camau i ymdrin â nhw. Dywedwyd wrth y tîm, os cymeradwyir y Rheoliadau ar gyfer Llawlyfrau Cwrs, sy'n derbyn ystyriaeth ar hyn o bryd gan Bwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau/Colegau, bydd fersiynau PDF o lawlyfrau cwrs yn cael eu darparu ar gyfer pob cwrs, eu cynnwys yn y rhith-amgylchedd dysgu, a'u hyrwyddo drwy The Hub (ffynhonnell wybodaeth i staff, sy'n gyfatebol â UniLife, sydd hefyd yn gweithredu fel y rhith-amgylchedd dysgu i CBCDC), CELT, Pwyllgorau Gwella Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau a Rheolwyr Academaidd. Bydd y llawlyfrau cwrs yma'n cael eu cynhyrchu gan arweinwyr cwrs a'u llofnodi gan Reolwyr Academaidd. Oherwydd hyn, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd
i ddatblygu a chyhoeddi llawlyfrau penodol ar gyfer pob cwrs.

3.9 Sicrhawyd y tîm adolygu bod gwybodaeth am fodiwlau a chyrsiau, ar y rhith-amgylchedd dysgu neu fel arall, yn gyfrifoldeb i arweinwyr modiwl a chwrs yn y drefn honno, a'i fod yn cael ei reoli ar sail ad hoc drwy reolwyr llinell. Sicrhawyd y tîm bod yr wybodaeth hon yn addas, yn gywir ac wedi'i diweddaru. Yn fwy na hynny, rhoddodd y Brifysgol dystiolaeth i ddangos bod ganddi'r gallu i ymdrin ag unrhyw broblemau y mae'n eu canfod sy'n ymwneud â gwybodaeth anghywir neu wybodaeth sydd wedi mynd yn hen. Fodd bynnag, gan nodi'r agwedd yma sy'n adweithiol yn ei hanfod, ni chanfu'r tîm unrhyw dystiolaeth bod gwybodaeth am fodiwlau a chyrsiau'n cael ei harchwilio'n systematig i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfredol. (Nododd y tîm debygrwydd mewn egwyddor rhwng y diffyg yma o fonitro'n systematig a monitro annigonol o berfformiad adborth o asesiadau fel y nodir o dan B6.) O ganlyniad, ac o gymryd i ystyriaeth broblemau a drafodwyd ym mharagraffau 3.13 i 3.17, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl wybodaeth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr yn gywir ac yn gyson, ac yn cyflawni gofynion sylfaenol y Brifysgol.

3.10 Canfu'r tîm adolygu bod nad yw gwybodaeth am gyrsiau ar gronfa ddata ICIS y Brifysgol bob amser yn gywir ac yn gyfredol. Mae rhai manylebau cyrsiau sydd wedi mynd yn hen neu sydd 'ddim ar gael'. Nid yw'r gronfa ddata'n cynnwys rhai mathau o ddarpariaeth, megis doethuriaethau proffesiynol a rhai graddau ymchwil sydd ag elfennau a addysgir. (Gwelwch hefyd Ddisgwyliad A2.2, paragraff 1.26.)

3.11 Mae'r Brifysgol yn rhoi tystysgrifau a thrawsgrifiadau i raddedigion ar gyfer ei dyfarniadau, yn cynnwys y rheiny a wnaed drwy bartneriaethau cydweithredol. I leihau'r risg o ffugiadau, mae wedi cryfhau nodweddion diogelwch ei ddogfennau dyfarnu. O'r flwyddyn academaidd hon ymlaen mae'r holl fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar gyfer yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch, a'u darparu gan ddefnyddio meddalwedd GradIntel, gan ddarparu cofnod diogel ar-lein i fyfyrwyr gael gafael ar eu cofnod cyrhaeddiad manwl. Mae Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol yn gyfrifol am ddiogelu'r data ar gyfer yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch.

3.12 Mae Cyflwyniad y Myfyrwyr yn nodi nifer o ffeithiau anghywir yn yr wybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr mewn perthynas â'r newidiadau cyflym a wnaed o ganlyniad i'r uno. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r problemau yma ac yn cydnabod bod bwlch o ran amser yn aml iawn mewn cyfathrebu newidiadau ar ôl yr uno. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod gwybodaeth o'r math hwn o dan adolygiad yn gyson, a chlywodd bod y Brifysgol yn defnyddio adborth gan y myfyrwyr, a gan y staff, yn y broses hon.

3.13 Cyfeiriodd ASA Bryder at y tîm adolygu (tudalennau 4 i 5) mewn perthynas â hybu cyrsiau'r Brifysgol heb awdurdod dramor gan bartner cydweithredol. Amlinellir yr amgylchiadau o dan B10, sydd hefyd yn ymwneud ag agweddau o ddiwydrwydd dyladwy'r pryder yma. Mewn perthynas â phethau fel y deunyddiau hyrwyddo, canfu'r adolygiad ei fod yn ymwneud â chyrsiau mewn dull o ddarparu nad oedd y Brifysgol wedi ei gymeradwyo ar gyfer ei etholfreinio i'w phartner, ac nad oedd wedi'i gymeradwyo i'w ddarparu gyda chefnogaeth canolfan ddysgu trydydd parti'r partner. Roedd y partner wedi derbyn nad oedd wedi cymeradwyo unrhyw ddeunydd i'w ryddhau gan y ganolfan ddysgu, nac wedi ceisio cymeradwyaeth gan y Brifysgol ar gyfer unrhyw hysbysebion o'r fath. Er bod y sianel gyfathrebu rhwng y Brifysgol a'i phartner tramor yn ymddangos yn gyflawn, roedd hi'n ymddangos bod canolfan ddysgu trydydd parti'r partner yn gweithredu gyda lefel uchel o ymreolaeth mewn perthynas â chyrsiau'r Brifysgol.

3.14 Wrth archwilio presenoldeb ar-lein y Brifysgol, a phresenoldeb ar-lein ei phartner, canfu'r tîm adolygu bod deunyddiau hyrwyddo ar gyfer cyrsiau i'w darparu mewn partneriaeth wedi eu rhoi ar wefan annibynnol a oedd, er bod dolenni ati o dudalennau'r Brifysgol, yn cael ei rheoli a'i phoblogi gan y partner. Roedd y wefan wedi mabwysiadu brand a oedd, yn ei olwg a'i gynnwys, bron yn amhosib ei wahaniaethu oddi wrth frand y Brifysgol, ac nid oedd yn dangos yn glir beth oedd natur y bartneriaeth rhwng y Brifysgol a'i phartner. Yn benodol, doedd hi ddim yn amlwg y byddai'r tiwtoriaid, a chefnogaeth ar gyfer astudiaeth y myfyrwyr, yn cael ei ddarparu'n bennaf gan y partner.

3.15 Clywodd y tîm adolygu bod y partner wedi bod yn ddiwyd wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynnwys y wefan, ac wrth ymateb i geisiadau'r Brifysgol am newid. Ond, roedd y tîm o'r farn bod y diffyg eglurder mewn perthynas â natur y bartneriaeth yn cyfaddawdu addasrwydd y cynnwys. Yn yr un modd, roedd y tîm o'r farn nad oedd y wefan yn darparu digon o wybodaeth i helpu darpar fyfyrwyr i ddeall yr amgylchedd academaidd lle byddent yn astudio, nac i ddisgrifio pa ddarpariaeth fyddai'n cael ei gwneud i alluogi eu datblygiad a'u cyflawniad. Ar y sail yma, roedd y tîm o'r farn y gallai'r wefan achosi risg i enw da'r Brifysgol.

3.16 Yng nghyd-destun hyrwyddo diawdurdod yr hysbysebu diawdurdod am gyrsiau gan ganolfan sydd heb ei chymeradwyo i'w darparu nhw, a'r diffyg gwybodaeth digon manwl sydd wedi'i chynnwys yng ngwefan y partner sydd â brand y Brifysgol, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod gwybodaeth a gyhoeddir gan bartneriaid a sefydliadau trydydd parti, am ddarpariaeth sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol, yn gyson addas a dibynadwy.

3.17 Er gwaethaf y problemau sy'n derbyn sylw yn yr argymhellion uchod, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol, yn gyffredinol, yn cynhyrchu gwybodaeth am ei darpariaeth addysg uwch sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy yn gyffredinol, ac felly bod y Disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, nes bo'r argymhellion wedi eu cyflawni'n llawn, mae lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.18 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau gyda'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

3.19 Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau ar gyfer ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, gwneir argymhellion ar gyfer gwelliant mewn perthynas â gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, a gwybodaeth a gyhoeddir gan bartneriaid a sefydliadau trydydd parti. Mae'r cynnydd o ran datblygu llawlyfrau cwrs wedi'i gadarnhau. Hyd nes y bydd y problemau hyn wedi eu trin yn llawn, mae rhai risgiau'n parhau.

3.20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

Y canfyddiadau

4.1 Mae'r Brifysgol yn diffinio gwelliant academaidd fel "y broses o gymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu". Dirprwyir y cyfrifoldeb am welliant i'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu, sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Mae gan CBCDC ei Bwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu ei hun, ond mae cynrychiolydd o'r Coleg yn eistedd ar Bwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol. Yn ogystal, mae aelod o'r Brifysgol yn eistedd ar Bwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu'r Coleg.

4.2 Mae trefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn caniatáu i themâu gwelliant ymddangos o adroddiadau arholwyr allanol, ac o brosesau blynyddol o fonitro, adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau yn y Brifysgol a'i phartneriaid. Gall myfyrwyr hefyd gyfrannu at y broses o bennu themâu gwelliant trwy werthusiadau o fodiwlau, arolygon mewnol ac allanol a thrwy eu cynrychiolwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol. Mae themâu sy'n ymddangos yn y ffordd yma'n llifo i fyny i'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu drwy Bwyllgorau Gwella Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau neu'r Coleg.

4.3 Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod y rôl ganolog y gall staff academaidd ei chwarae mewn gwelliant ac yn cefnogi hyn drwy ei phrosesau datblygu staff, yn arbennig y Cynllun Myfyrio ac Arsylwi ar Arfer. Hwylusir hyn gan y CELT, sy'n darparu ystod o wasanaethau cymorth, hyfforddiant ac arweiniad i holl aelodau o grŵp Prifysgol De Cymru i wella dysgu ac addysgu.

4.4 Mae'r fframweithiau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Er mwyn profi hyn, craffodd y tîm adolygu ddogfennau a chofnodion pwyllgorau'n ymwneud â phennu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau gwella. Caiff y rhain eu trafod hefyd gyda myfyrwyr, staff academaidd a staff cymorth o'r Brifysgol, ac o'i phartneriaid.

4.5 Mae gwaith prydlon o ddatblygu a chyflwyno strwythurau rheoli newydd, a gweithdrefnau a rheoliadau cyfunol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau dyfarniadau'r Brifysgol wedi bod yn gyflawniad sylweddol yn dilyn yr uno. Erbyn hyn, mae'r Brifysgol wedi dechrau adolygu ac ail alinio ei phortffolio academaidd er mwyn creu campysau o arbenigrwydd academaidd. Mae'r broses yn cael ei goruchwylio gan Fwrdd Gweithredol Rhaglenni sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-Ganghellor, ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl gampysau, o'r gwasanaethau cymorth, a chynrychiolydd myfyrwyr. Yn ogystal â chyrsiau academaidd, mae'r broses yn cynnwys ystyried gwasanaethau llyfrgell a chymorth i fyfyrwyr.

4.6 Mae'r Brifysgol wedi ymwneud yn frwd â rhaglen 'Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru' yr AAU fel y sefydliad arweiniol ar dair thema. Pennodd llinyn gwaith 'Dysgu mewn Gwaith' sut mae cynnwys profiad gwaith o fewn y cwricwlwm yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth. Mae'r Brifysgol wedi ymateb yn bositif i hyn drwy gynnwys gofyniad bod gan bob cwrs i israddedigion elfen ynddo o brofiad cysylltiedig â gwaith yn ei Lasbrint Academaidd. Gan adlewyrchu canlyniadau'r llinyn gwaith 'Dysgu mewn Gwaith', mae'r Cynllun Academaidd hefyd yn hyrwyddo ymgysylltiad y staff â byd busnes/diwydiant, er enghraifft drwy Raglen Mewnwelediad Strategol y Brifysgol, fel bod modd i'r staff werthfawrogi anghenion cyflogwyr yn llawnach. Bwydwyd canlyniadau'r llinyn gwaith 'Myfyrwyr fel Partneriaid' i mewn i adolygiad y Brifysgol o'i chynllun cynrychiolaeth myfyrwyr (gwelwch B5). Mae hefyd wedi hysbysu ei hagwedd at ymgysylltiad â'r myfyrwyr yn y gwaith parhaus o ail alinio'r campysau.

4.7 Mae Bwrdd Academaidd y Brifysgol wedi cefnogi ymrwymiad i'w holl staff academaidd ddod yn Gymrodor o'r Academi Addysg Uwch erbyn 2020. Mae hyn yn cael ei hybu drwy gynlluniau'r Brifysgol ar gyfer gwerthuso staff yn flynyddol. Mae cyfranogaeth mewn hyfforddiant a ddarperir gan CELT yn galluogi staff academaidd i gael cydnabyddiaeth o fewn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU hyd at lefel Prif Gymrawd. Mae grantiau ar gael hefyd i gefnogi mentrau dysgu ac addysgu newydd.

4.8 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn cymryd camau pwrpasol wedi'u cynllunio i bennu a gweithredu mesurau i wella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.9 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau gyda'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

4.10 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn cymryd camau pwrpasol wedi'u cynllunio i bennu a gweithredu mesurau i wella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

4.11 Mae'r tîm adolygu'n barnu bod gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

5 Sylwadau am Ryngwladoli

Y canfyddiadau

5.1 Mae'r Brifysgol ar gam gweddol gynnar yn y broses o ddatblygu ei phresenoldeb rhyngwladol cyffredinol, ac mae'n dal i ddatblygu ei Strategaeth Ryngwladol. Mae ei meddylfryd yn dal i fod yn anaeddfed, o anghenraid, er ei bod wedi'i hysbysu a'i dylanwadu gan hanes ei gwaith rhyngwladol o recriwtio a datblygu partneriaethau rhyngwladol yn ei sefydliadau blaenorol. Mae oddeutu 14 y cant o 33,000 o fyfyrwyr y Brifysgol yn fyfyrwyr rhyngwladol neu'n hanu o wlad y tu allan i'r DU. Darperir dyfarniadau a chyrsiau'r Brifysgol drwy 15 o bartneriaethau cydweithredol gweithredol gyda sefydliadau tramor, ac mae'r Brifysgol yn ceisio adeiladu rhagor o bartneriaethau o'r math yma (gwelwch dudalen 4). Mae cytundebau eraill yn eu lle ar gyfer trosglwyddo a safle uwch, a chyfnewidiadau staff-myfyrwyr.

5.2 O ran trefn, mae'r Brifysgol wedi sefydlu swydd i Ddirprwy Is-Ganghellor (Rhyngwladol) o fewn Grŵp Gweithredol y Brifysgol; ac mae un o'r is-grwpiau i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar Bartneriaethau yn y DU a Thramor.

5.3 Mae'r naratif isod yn dangos bod y Brifysgol yn ymwybodol o'r pellter sydd ganddi i'w deithio o hyd, ond ar yr un pryd mae'n dangos ei bod yn ymwybodol o'r fan lle mae angen ymdrin â'r ymdrech o ran rheoli ac arwain.

5.4 Mae'r Brifysgol yn mynegi ei bod wedi gweithio gyda CCAUC / Prifysgolion Cymru, y Gynghrair Prifysgolion a'r Cyngor Prydeinig i "ddatblygu ac adeiladu ei gwybodaeth a'i sgiliau yn y maes yma" am ei bod yn weddol newydd i waith rhyngwladol. Yn benodol, mae ei Chynllun Academaidd yn dod â phartneriaethau a gwaith rhyngwladol i galon ei chenhadaeth er mwyn "adeiladu ar ein … cysylltiadau byd-eang … er mwyn ychwanegu a rhannu gwerth y gymdeithas a'n heconomi mewn ffordd barhaus ac ystyrlon" ac i "Ddatblygu a gweithredu Strategaeth Ryngwladol Prifysgol De Cymru i gynyddu … recriwtiad myfyrwyr rhyngwladol yn y wlad". Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn tynnu sylw penodol at ei gwaith i alinio ei dulliau o gydnabod dysgu blaenorol gydag arferion gorau Ewrop ac ASA, a gyda'r FfCChC.

5.5 Er ei bod yn dal i fynd drwy'r broses ymgynghori a meincnodi, mae'r Strategaeth Ryngwladol wedi bod trwy nifer o fersiynau drafft, a rhagwelir y bydd y Bwrdd Academaidd yn ei chyhoeddi yn haf 2015. Dyma rai o amcanion y Brifysgol: datblygu ac ehangu partneriaethau rhyngwladol a recriwtio rhagor o fyfyrwyr rhyngwladol ar y campws, creu cydweithrediadau academaidd ac ymchwil sy'n gynaliadwy, a datblygu'r portffolio academaidd i gwrdd ag anghenion yr economi byd-eang newydd. Mae ei thargedau strategol yn cynnwys: dod yn ddewis ddarparwr addysg ryngwladol; recriwtio rhagor o fyfyrwyr ar y campws; darparu addysg ac ymchwil drawswladol o safon uchel drwy bartneriaethau tymor hir sy'n gynaliadwy; rhyngwladoli cwricwlwm y Brifysgol; sefydlu enw da fel y dewis bartner i ddarparwyr addysg rhyngwladol; darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr rhyngwladol; a sefydlu brand sy'n cael ei gydnabod ar draws y byd ar gyfer darparu cyrsiau ar-lein enwog drwy bartneriaeth strategol.

5.6 Mae camau ar waith yn barod mewn pedwar maes i gefnogi'r strategaeth sy'n datblygu: parhau i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ar y campws; recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ar gyrsiau ar-lein; darparu cyrsiau'r Brifysgol mewn partneriaeth â phartneriaid rhyngwladol (addysg drawswladol); a rhyngwladoli'r cwricwlwm. Yn ogystal, dangosodd y Brifysgol y byddai cylchoedd gorchwyl nifer o bwyllgorau eraill yn cynnwys y gofyniad i ystyried agenda rhyngwladol y Brifysgol yn eu gwaith, er y byddai'n ymddangos nad yw'r ychwanegiadau yma wedi eu cynnwys eto.

5.7 Yn y flwyddyn yn dilyn yn syth ar ôl yr uno, gwnaeth y Brifysgol adolygiad trwyadl o'i phartneriaethau rhyngwladol i gyd, er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaethau wedi'u halinio'n

gywir gyda'r *Bennod B10* newydd yng Nghod Ansawdd, bod sylfeini academaidd y cydberthnasau'n parhau'n gadarn, a bod yr holl waith addysgu ac asesu wedi'i wneud naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caewyd nifer o gydberthnasau o ganlyniad: oll mewn ffordd sensitif, a gyda chymorth priodol i'r myfyrwyr sy'n astudio'r rhain yn barod (gwelwch hefyd B10).

5.8 Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol wedi dewis peidio dilysu cyrsiau a luniwyd gan ei sefydliadau partner ond, yn lle hynny, mae wedi dewis etholfreinio neu ddarparu ei darpariaeth ei hun gyda'r partner. Dewis gorau'r Brifysgol yw mynd i bartneriaethau lle mae elfennau o ddarparu cyrsiau o'r fath ar y cyd, gan felly alluogi ymgysylltiad mwy uniongyrchol rhwng staff y Brifysgol a'r myfyrwyr, ac mae 13 o'r partneriaethau'n cynnwys elfennau o gyfnewid rhwng staff a myfyrwyr yn barod.

5.9 Nod y Strategaeth Ryngwladol yw cynyddu nifer y partneriaethau rhyngwladol, yn rhannol i ddarparu cynnydd i astudio ar gampws y Brifysgol, ond hefyd i ddatblygu partneriaethau arwyddocaol sy'n ddigon eang i alluogi cydberthnasau academaidd ac ymchwil sy'n gynaliadwy. Mae ystod o dargedau clir i fesur y cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn; byddai'n well gan y Brifysgol ddatblygu nifer fechan o bartneriaid allweddol arwyddocaol yn hytrach na nifer fawr o bartneriaethau bychain.

5.10 Mae'r Grŵp Partneriaethau yn y DU a Thramor i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi ei sefydlu i roi cyfeiriad i'r datblygiadau hyn ac i'w monitro. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau busnes sy'n ymwneud â datblygu partneriaid newydd posibl. Ar hyn o bryd, mae pob cyfadran yn adolygu ei phortffolio o gyrsiau. Mae cyfleoedd ar gyfer datblygiadau rhyngwladol wedi ymddangos yn yr adolygiadau hyn.

5.11 Mae staff yn yr Uned Ansawdd Cydweithredol yn rhoi cefnogaeth i gyfadrannau a'u partneriaid trwy gydol y broses o ddatblygu a gweithredu partneriaethau rhyngwladol. Y prif gyfrwng ar gyfer cymorth academaidd yw rhwng Swyddogion Cyswllt y Brifysgol a rhai'r Partneriaid (gwelwch B10 i gael manylion), ac mae'r holl gyrsiau partneriaethau rhyngwladol yn atebol i gael eu monitro'n fanwl bob blwyddyn a chael eu hadolygu'n gyfnodol yn yr un modd â chyrsiau 'cartref' (gwelwch hefyd B10).

5.12 Mae adolygiad portffolio'r Brifysgol wedi rhoi'r cyfle i gyfadrannau gyfateb eu cynnig gyda'r galw rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn cefnogi a chynghori ymgeiswyr am ei chyrsiau ar y campws drwy rwydwaith eang o gynrychiolwyr ymhob gwlad, asiantau recriwtio, ymweliadau tramor gan staff y Brifysgol, a thrwy ddeunyddiau cymorth cynhwysfawr ar y we ac mewn print. Ffurfiodd y tîm adolygu'r farn y byddai'r Canllaw i Fyfyrwyr Rhyngwladol a'r Canllaw i Fyfyrwyr UE yn arbennig o ddefnyddiol, a bod ymgeiswyr yn derbyn rhagor o gymorth uniongyrchol gan dîm Cyngor am Fewnfudo i Fyfyrwyr Rhyngwladol y Brifysgol.

5.13 Mae ceisiadau'n cael eu holrhain a'u monitro'n ofalus i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau o fewn fframwaith rheoliadol Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) ac nad yw statws y Brifysgol fel Noddwr ag Ymddiriedaeth Uchel yn ôl Haen 4 wedi ei gyfaddawdu. Adolygir data am fynediadau i ganfod tueddiadau gan y Grŵp Cydymffurfiaeth Haen 4, ac mae meysydd sy'n achosi pryder wedi arwain, er enghraifft, at newidiadau ym mhrosesau cyfweld y Brifysgol ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol.

5.14 Cynigir proses ymsefydlu pwrpasol i fyfyrwyr rhyngwladol, ac roedd y myfyrwyr yn teimlo ei fod yn gweithio'n dda. Siaradodd adolygwyr â myfyrwyr ar gyrsiau a ddarperir mewn sefydliadau partner tramor oedd oll yn teimlo bod eu rhaglen ymsefydlu wedi bod yn addas. Mae'r Grŵp Partneriaethau yn y DU a Thramor i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor yn cynllunio rhagor o welliannau i'r broses drosglwyddo ac ymsefydlu ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol.

5.15 Mae'r Brifysgol wedi cydnabod y dylid rhoi mwy o ffocws ar ryngwladoli'r cwricwlwm. Darllenodd y tîm adolygu am waith nifer o Gynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr Rhyngwladol, sy'n cydnabod y gallai'r cwricwlwm fod â ffocws mwy rhyngwladol er mwyn paratoi myfyrwyr 'cartref'

ar gyfer gwaith a dinasyddiaeth fyd-eang, ac i sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn bwriadu parhau ac adeiladu ar y gwaith hwn, ac mae CELT wedi darparu seminar ar hyn yn barod. Yn y dyfodol, wrth gymeradwyo neu adolygu cwricwlwm newydd, bydd gofyn i banelau dilysu ystyried rhyngwladoli'r cwricwlwm yn ffurfiol o fewn y broses o gymeradwyo cyrsiau. Mae'r tîm o'r farn bod y fenter hon yn amserol; gallai llawer o'r cwricwlwm gael ei ddwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn dilyn y broses Adolygiad Portffolio Sefydliadol.

5.16 Mae'r Strategaeth Ryngwladol wedi nodi bod y Brifysgol yn dymuno datblygu brand ar gyfer darpariaeth ar-lein sy'n cael ei gydnabod ar draws y byd. Mae'r Brifysgol yn credu bod symud ymlaen yn y maes yma'n bwysig, ac y byddai'n cael ei ddwyn ymlaen yn well drwy ddatblygu cynghrair strategol gyda phartner sydd â phrofiad yn y maes sy'n bodoli'n barod. Canfuwyd partner o'r fath yn ddiweddar (gwelwch B10 i gael manylion), a dylid lansio ei chyrsiau ar-lein cyntaf a ddarperir yn rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o fewn nifer o fisoedd.

5.17 Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o fecanweithiau i ymgysylltu â'r myfyrwyr er mwyn mesur eu profiad cyffredinol (gwelwch B5). Er bod yn rhain yn amlwg yn rhoi cipolwg o'r profiad ehangach, nid yw'r Brifysgol eto wedi dadelfennu'r adborth yn gyson er mwyn dadansoddi'r adborth manwl gan ei 900 bron o fyfyrwyr rhyngwladol ar y campws (mae'r mwyafrif ohonynt yn y Gyfadran Busnes a Chymdeithas, ac yn y Gyfadran Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth).

5.18 Mae Cyflwyniad y Myfyrwyr yn nodi bod myfyrwyr rhyngwladol wedi canfod bod y rhaglen Croeso Rhyngwladol wedi rhoi mewnwelediad defnyddiol iddynt i'r Brifysgol ac i fyw yng Nghymru. Ond mae hefyd yn nodi y byddai'n fwy defnyddiol cael proses ymsefydlu fwy cynhwysfawr ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, sy'n canolbwyntio ar arferion academaidd, ac ar ddarparu arweiniad ar sut i nodi cyfeiriadau ac osgoi llên-ladrad. Mae hefyd yn dweud bod llawer o fyfyrwyr tramor yn teimlo nad yw lleoliadau gwaith ar gael iddynt o ganlyniad i gyfyngiadau fisa.

5.19 Ers ei ffurfio mae'r Brifysgol wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu ei harbenigedd yn yr arena ryngwladol. Mae'r Brifysgol wedi datblygu Strategaeth Ryngwladol newydd sy'n cynnwys datblygu partneriaethau rhyngwladol newydd, cynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yn y Brifysgol, a rhyngwladoli'r cwricwlwm. Mae'r Brifysgol wedi adolygu a symleiddio ei phortffolio o bartneriaid academaidd rhyngwladol yn drwyadl ond mae ganddi uchelgais i'w ymestyn gan ychwanegu'n ofalus bartneriaethau newydd sy'n strategol bwysig, a fydd yn cynnwys amrediad ehangach o weithgareddau, gan gynnwys ymchwil yn ogystal â darpariaeth cyrsiau.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 19 i 21 y llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da
Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu
Yr hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Corff dyfarnu graddau
Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)
Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu
Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnod Pwnc
Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau Baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol
Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau
Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol
Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad
Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog
Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol
Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu **e-ddysgu**)
Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig
Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell
Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngrwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu
Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth
Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch
Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith
Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant
Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus
Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen
Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio
Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)
Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)
Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel platfform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academaidd trothwy
Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyriwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

Safonau academaidd
Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

Y Cod Ansawdd
Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA1256 - R3929 - Awst 15

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2015
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB

Ffôn: 029 2048 5963 (Cymraeg) 01452 557000 (English)
Ebost: enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan: www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786